

Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru



South Wales  
Fire and Rescue Service



# Cynllun Gwella Blynyddol

Sut wnaethom yn 2021-2022 a beth rydym yn bwriadu ei wneud yn 2023-2024



**CODI YMWYBYDDIAETH  
LLEIHAU RISG**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg





**Huw Jakeway QFSM**

Prif Swyddog Tân  
Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru



**Cynghorydd  
Steven Bradwick**

Cadeirydd  
Awdurdod Tân ac Achub  
De Cymru

## Croeso i'n Cynllun Gwella Blynyddol

Helo, a chroeso i'n Cynllun Gwella Blynyddol diweddaraf.

Mae'r cynllun hwn yn adlewyrchu ar ein llwyddiannau a'n cyflawniadau yn ystod 2021-2022, ond hefyd yn manylu ar ein cynlluniau a'n themâu strategol i'n helpu i gyflawni ein cenhadaeth o gadw De Cymru'n ddiogel drwy leihau risg yn 2022-2023 a thu hwnt.

Mae amcanion a blaenoriaethau'r Gwasanaeth wedi'u datblygu mewn ymgynghoriad â'n staff, y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'n rhanddeiliaid cysylltiedig. Mae'r adborth a gafwyd yn adlewyrchu'r wyth thema strategol a amlinellwyd yn ein cynllun blaenorol, a fydd yn rhoi ffocws i alluogi'r Gwasanaeth i barhau i leihau risg a chefnogi ein cymunedau pan fydd ein hangen arnynt.

Eleni, croesawyd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd newydd i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, ynghyd ag 14 aelod newydd a fydd yn parhau i ddarparu llywodraethiant da, craffu cadarn a chefnogaeth i ni fel Gwasanaeth i gyflawni ein dyheadau o wneud De Cymru yn fwy diogel.

Mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn heriol, ond rydym hefyd wedi dysgu cymaint yn ystod pandemig Covid-19. Mae staff ar draws y Gwasanaeth wedi bod yn rhagorol yn ystod y cyfnod cymhleth a heriol hwn - maent wedi bod yn hydwyth wrth addasu i ffyrdd newydd o weithio, gan sicrhau ein bod wedi cadw ein cymunedau yn ddiogelach. Rydym hefyd wedi cynorthwyo partneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau hanfodol a chritigol. Er gwaethaf llacio mesurau rheoli a diogelwch Covid-19, megis cadw pellter cymdeithasol a phrofion arferol, mae angen i ni sicrhau ein bod yn cynnal ac yn parhau i groesawu ffyrdd newydd o weithio, boed drwy gynnal cyfarfodydd ar-lein neu drwy gyflwyno sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth ar-lein.

Bydd y newidiadau hyn hefyd yn ein helpu i gyflawni yn erbyn ein [Cynllun Lleihau Carbon](#) wrth i ni ystyried cynaliadwyedd a sut i ddefnyddio ein hadnoddau'n effeithlon wrth leihau effaith amgylcheddol y Gwasanaeth. Mae newid yn yr hinsawdd ar ein gwarthaf, ac rydym yn dyst i'r gofynion newydd a fydd ar ein darpariaeth gwasanaeth o ganlyniad i hyn, gan gynnwys effaith tanau gwyllt ac ymateb i ddigwyddiadau llifogydd. Dylem felly osod esiampl drwy ein gweithredoedd ein hunain.

Mae eich barn a'ch profiadau yn hanfodol er mwyn llunio ffordd newydd ymlaen i ni.

Ar ddiwedd y cynllun hwn, rydym yn gobeithio byddwch yn dweud wrthym beth yw eich barn am ein hamcanion, a gobeithio byddwch yn cwblhau ein harolwg ymgynghori neu'n cysylltu â ni; mae eich meddyliau, eich safbwyntiau a'ch syniadau yn hanfodol i'n llwyddiant.

# Cynnwys

|                                                                 |    |
|-----------------------------------------------------------------|----|
| Croeso                                                          | 3  |
| Cyflwyniad                                                      | 5  |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015              | 6  |
| Ein Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus                              | 7  |
| Amdanom Ni                                                      | 8  |
| Yn 2021-2022, fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru...     | 12 |
| Beth Wnaethom yn 2021-2022 a sut Wnaethom Berfformio            | 14 |
| 2021-2022 Cymariaethau â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru | 16 |
| Roedd gennym wyth Thema Strategol a nodau cefnogol yn 2021-2022 | 18 |
| Archwiliad cyfrifon Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru 2021-2022  | 36 |
| Archwiliadau Mewnol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru 2021-2022  | 37 |
| Beth Rydym yn Bwriadu ei Wneud yn 2023-2024                     | 39 |
| Sut Wnaethom Datblygu ein Cynllun ar gyfer 2023-2024            | 40 |
| Ein Themâu Strategol                                            | 46 |
| Beth Rydym yn Bwriadu ei Wneud yn 2023-2024                     | 48 |
| Yr Iaith Gymraeg a Dweud Eich Dweud                             | 56 |

# Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn un o'r gwasanaethau tân ac achub mwyaf yn y DU, gan gwmpasu 10 awdurdod unedol a phoblogaeth o 1.5 miliwn. Dengys data cyfrifiad diweddar ein bod yn gwasanaethu rhai o'r cymunedau mwyaf poblog a'r rhai sy'n tyfu cyflymaf yng Nghymru. Yn ddaearyddol rydym yn gyfrifol am leoliadau gwledig, arfordirol a threfol sy'n ymestyn dros 2,800 cilomedr sgwâr.

Amlinellir y gwasanaethau y mae'n rhaid i ni eu darparu mewn ystod o fframweithiau cyfreithiol gan gynnwys:

- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004;
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ('y Mesur');
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('DLICD');
- Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016.

Fel 'Awdurdod Gwella Cymreig' dynodedig, mae'r Mesur yn gofyn i ni osod a chyhoeddi amcanion gwella ac ymgynghori arnynt, gan ddangos bod ein cynlluniau yn rhoi sylw i'r saith agwedd o welliant:

- Effeithiolrwydd strategol
- Cynaliadwyedd
- Ansawdd gwasanaethau
- Effeithlonrwydd
- Argaeledd gwasanaethau
- Arloesedd
- Tegwch

Mae DLICD hefyd yn gofyn i ni osod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau o bobl Cymru i'r dyfodol. O dan yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy', sy'n cynnwys saith nod, rhaid inni gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi datganiad ac adroddiad blynyddol ar ein cynnydd, gan gynnwys ein hymateb i unrhyw argymhellion gan Gomisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Mae gennym ddyletswydd i gadw pobl, cymunedau, busnesau ac amgylchedd De Cymru yn ddiogel rhag tanau a pheryglon eraill. I wneud hyn yn effeithiol ac yn effeithlon, nawr ac i genedlaethau'r dyfodol, rydym yn ystyried anghenion a barn ein cymunedau yn barhaus, wrth weithio ar draws adrannau, gyda phartneriaid a'n cymunedau ill dau. Mae'r Cynllun Gwella hwn yn edrych yn ôl dros 2021-2022 gan adolygu ein cyflawniad yn erbyn ein cynlluniau. Mae hefyd yn edrych ymlaen at 2023-2024, gan amlinellu ein hamcanion a'n gweithgareddau arfaethedig.



# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Egwyddor datblygu cynaliadwy DLICD yw:

**“Dylai pob Gwasanaeth Cyhoeddus weithredu mewn dull sy'n ceisio sicrhau bydd anghenion y presennol yn cael eu cwrdd heb niweidio gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.”**

Saith Nod DLCD yw:



Cymru hydwyth



Cymru o gymunedau cydlynus



Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus



Cymru lewyrchus



Cymru iachach



Cymru fwy cyfartal



Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Wrth i ni ddatblygu ein Themâu Strategol, sef y blaenoriaethau lefel uchel sy'n llywio ein cynllun, ystyrir nodau DLICD er mwyn sicrhau ein bod yn cyfrannu at eu cyflawni.

Mae DLICD hefyd yn nodi'r **pum ffordd** ganlynol **o weithio** y mae'n rhaid inni eu hystyried a gweithredu'n unol â hwy wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau:

- Cydbwysu anghenion tymor byr ag anghenion **hirdymor**
- Rhoi adnoddau **i atal** problemau
- Defnyddio dull **cyfannol**, wrth gydbwysu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- **Cydweithio** ag eraill i helpu cyflawni amcanion llesiant
- **Cynnwys** eraill i adlewyrchu amrywiaeth ardal



Hirdymor



Atal



Cyfannu



Cydweithio



Cynnwys

## Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2021

Ers mis Mawrth 2021, bu rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried sut mae penderfyniadau strategol yn effeithio ar y rhai sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol, er enghraifft profi tlodi neu fynediad anghyfartal i wasanaethau fel trafndiaeth. Gall anfantais o'r fath arwain at anghydraddoldebau o ran canlyniadau gan gynnwys iechyd gwaeth, cyrhaeddiad addysgol is, a chyfleoedd gwaith llai ffafriol. Felly, rydym yn rhoi sylw teilwng i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol, sy'n cyfrannu at nodau DLICD.

# Ein Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Rydym yn parhau i weithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn ein hardal. Mae gan BGC gyfrifoldeb i baratoi a chyhoeddi cynlluniau llesiant lleol ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd gan ddangos sut mae cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLICD) yn cael eu cyflawni.

Byddwn bob amser yn ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd a sut allwn fod yn aelodau effeithiol o'n BGC, gan gydweithio a mabwysiadu dull cyfannol o ddarparu gwasanaethau, i helpu pobl teimlo'n ddiogel ac iach yn eu bywydau bob dydd.








Mae ein gwaith gyda'r BGC yn dangos ein hymrwymiad i egwyddor datblygu cynaliadwy DLICD, saith nod y DLICD a chymhwyso'r pum ffordd o weithio ill dau.

Fe wnaethom nodi amrywiol gamau gweithredu sy'n cyfrannu at gyflawni'r saith nod wrth ddiffinio ein wyth Thema Strategol ac amcanion yn [ein Cynllun Strategol hirdymor ar gyfer 2020-2030](#).

Byddwn yn monitro a mesur ein cynnydd tuag at gyrraedd yr amcanion hyn o fewn ein prosesau cynllunio a monitro.

Ffurfiwyd BGC Gwent yn 2021, gan ddisodli'r pump BGC awdurdod lleol ar gyfer yr ardal – Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Gwnaethwyd un Asesiad Llesiant ar gyfer Gwent gyfan a fydd yn llywio'r cynllun cyffredinol o 2023 ymlaen. Bydd cynlluniau llesiant a gynhyrchir gan bob awdurdod lleol ar gyfer 2018-2023 yn parhau i'w cyfnod llawn.

Cliciwch ar yr eicon perthnasol ar gyfer cynllun llesiant cyfredol y BGC a'r amcanion ar gyfer eich ardal chi.



# Amdanom Ni

“I wneud De Cymru’n fwy diogel wrth leihau risg”

Mae ein datganiad cenhadaeth yn disgrifio pwrpas cyfansymiol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru: beth rydym yn gwneud, ar gyfer pwy rydym yn ei wneud a sut a pham rydym yn ei wneud. Yn ogystal â dyletswydd statudol i ddarparu rhai gwasanaethau o ymateb i danau neu cyflawni achubiadau ar ddŵr mewndirol i atal a lleihau risg, rhaid i ni weithio mewn partneriaeth er lles ein cymunedau nawr ac i'r dyfodol. Cynorthwyir hyn ganddeall ein cymunedau a'r heriau rydym yn eu hwynebu.



### Amddiffyniad

- Diogelwch Ffyrdd
- Gwiriadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref
- Diogelwch Tân i Fusnesau
- Patrolau Troseddau Tân



### Atal

- Addysg
- Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch yn y Cartref
- Ymgysylltu Cymunedol
- Atal Llosgi Bwriadol



### Ymateb

- Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd
  - Diogelu'r Amgylchedd
  - Tanau Domestig/Masnachol
  - Chwilio ac Achub Trefol
  - Digwyddiadau Trafnidiaeth
  - Achub Anifeiliaid

### Adeiladau

47 Gorsaf a'r Pencadlys  
Ystafell Cyd-reoli Tân  
Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd  
Uned Iechyd Galwedigaethol.

### Staff

Cyflogir staff ar draws y  
cytundebau canlynol (ar yr  
31ain o Fawrth 2022).

| System Ddyletswydd Gyflawn | Diffoddwyr Tân Ar Alwad | Staff Rheoli | Staff Corfforaethol | Gwirfoddolwyr | Diffoddwyr Tân Cynorthwyol |
|----------------------------|-------------------------|--------------|---------------------|---------------|----------------------------|
| 806                        | 528                     | 41           | 390                 | 31            | 71                         |

Ein staff yw ein hased mwyaf - dros 1,600 o unigolion, rhai â chontractau lluosog – gan gynnwys diffoddwyr tân, staff rheoli a phersonél corfforaethol sy’n cefnogi’r rhai ar y rheng flaen. Lleolir ein gorsafoedd o fewn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu gyda 20 o orsafoedd yn cael eu staffio gan bersonél llawn amser (mae gan naw ohonynt hefyd gyflenwad ar alwad, sy’n byw neu’n gweithio’n lleol ac yn ymateb i ddigwyddiadau yn ôl yr angen) a 27 gan bersonél sy’n gweithio ar alwad yn unig.

Rydym yn rhannu naw gorsaf gyda chydweithwyr o wasanaethau brys eraill. Mae Canolfan Cyd-reoli Tân a weithredir gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn y Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mhencadlys Heddlu De Cymru. Mae cydleoli yn ein helpu i gydweithio’n effeithiol a chefnogir hyn ymhellach gan yr ymgysylltu ar draws y Gwasanaeth a sefydlwyd gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), y GIG, Heddluoedd Gwent a De Cymru.

## Yr Ardal

|                       |                                            |                                                 |
|-----------------------|--------------------------------------------|-------------------------------------------------|
|                       |                                            |                                                 |
| Awdurdod Unedol<br>10 | Cwmpas cyfansymiol<br>2,800cm <sup>2</sup> | Cwmpas gan Ddŵr Mewndirol<br>3.7cm <sup>2</sup> |

Er bod y rhanbarth yn drefol yn bennaf, gan gynnwys Caerdydd a Chasnewydd a threfi mawr y cymoedd, mae llawer o gymunedau gwledig, ac mae Dyffryn Gwy wedi’i ddynodi’n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Cyn y pandemig, bu dros 32,000 o hediadau o Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd bob blwyddyn, gan wasanaethu dros 1.5 miliwn o deithwyr. Yn 2019 cafwyd 37 miliwn o Ymweliadau Diwrnod Twristiaeth ag ardal y Gwasanaeth, gan arwain at gyfanswm gwariant o £1.9 biliwn. Ar ôl y pandemig, disgwylir i nifer yr ymwelwyr i adfer erbyn 2023, yn ôl Llywodraeth.

De-ddwyrain Cymru yw’r porth i Gymru, gyda thros 9,100 cilomedr o ffyrdd, gan gynnwys yr A470, yr A449 a’r M4. Er bod maint y traffig wedi lleihau’n sylweddol yn ystod y pandemig, mae teithiau ar ffyrdd yn cynyddu ond nid ydym eto wedi sefydlu newidiadau tymor hwy i batrymau teithio a’r effaith ar ein gwasanaethau.

### Aelwydydd

Cynyddodd y nifer o gartrefi 4.6% gan fynd o 621,328 yn 2011 i 650,100 yn 2021, gyda’r gyfradd newid uchaf yn cael ei gofnodi yng Nghasnewydd (+8.1%). Yn gyffredinol, mae’r cynnydd yn bennaf o ganlyniad i’r cynnydd mewn aelwydydd un person. Mae ein gwaith er mwyn deall risg wedi nodi bod pobl hŷn sy’n byw ar ben eu hunain yn fwy agored i niwed. Felly, rydym wedi gwneud llawer iawn o waith i greu partneriaethau sy’n cefnogi ein gwaith yn y gymuned.

Mae eiddo perchen-feddiannaeth yn gyfrifol am 68% o anheddau gyda thua 15% yn cael eu rhentu’n breifat ac 17% yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol. Rydym yn cydnabod y bydd yr argyfwng costau byw yn rhoi pwysau sylweddol ar lawer o aelwydydd, a byddwn yn parhau i dargedu ein cyngor lleihau risg yn briodol.

### Amddifadedd

Mae ein cymunedau’n cynnwys rhai o’r cymunedau mwyaf cefnog a’r rhai tlotaf yng Nghymru. Er bod gan ein hardal wasanaethu’r cyfraddau cyflogaeth uchaf yng Nghymru, hefyd mae tri o’r pum awdurdod unedol sydd â’r cyfraddau cyflogaeth isaf yn Ne-ddwyrain Cymru gyda ni. Yn ogystal â hyn, mae 13% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (ardal ystadegol gyda phoblogaeth debyg) yn y rhanbarth ymysg y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Nid yw llawer o ffactorau, gan gynnwys iechyd gwael, anabledd, oedran ac ethnigrwydd, yn bodoli ar wahân. Er enghraifft, mae ychydig dros 50% o’r rhai sy’n nodi eu bod yn anabl yng Nghymru yn cael eu cyflogi, o gymharu ag 80% o’r rhai nad ydynt yn anabl. Yn yr un modd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, rydym yn ystyried yr haen hon o ffactorau wrth ystyried ein dyletswydd economaidd-gymdeithasol.



## Addysg

Mae dros 600 o ysgolion awdurdod unedol gan gynnwys tua 75 o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ein hardal a thros 240,000 o ddisgyblion. Fel rhan o'n rhaglenni ymgysylltu ag ysgolion, mae personél gorsafoedd yn ymweld ag ysgolion lleol i gyfleu negeseuon diogelwch tân i ddisgyblion. Mae menter Criw Hanfodol, digwyddiad amlasiantaethol sy'n cyflwyno gweithdai diogelwch personol i ddisgyblion Blwyddyn 6 a 7, yn cael ei gydlynu gan ein Tîm Gwasanaethau Addysg.

Mewn colegau chweched dosbarth a cholegau addysg bellach, mae ein Tîm Diogelwch Ffyrdd yn canolbwyntio ar ddiogelwch gyrwyr. Mae ein Hymgyrch y Glas, sy'n weithredol yn y tair prifysgol yn y rhanbarth, yn hyrwyddo diogelwch yn y cartref i'r sawl sy'n byw oddi cartref am y tro cyntaf.

## Newid Hinsawdd

Mae rhagamcanion newid hinsawdd y Swyddfa Dywydd yn rhagweld bydd cynnydd mewn gaeafau cynhesach, gwlypach a hafau poethach a sychach gyda mwy o amllder a dwyster o eithafion. Er y disgwylir hafau sychach, bydd cynnydd mewn glaw trwm yn ystod yr haf a fydd yn effeithio ar amllder a difrifoldeb llifogydd dŵr wyneb yn ogystal â stormydd gaeafol amlach.

Roedd effaith y tywydd poeth eithafol ar y gwasanaethau tân ac achub yn amlwg yn ystod Haf 2022 gyda thanau gwyllt yn achosi difrod i'r amgylchedd ac eiddo ill dau. Mewn rhai mannau, dilynwyd hyn gan lifogydd lleol, gan nad oedd cyflwr y tir yn gallu ymdopi â stormydd haf dilynol. Felly mae ein gallu achub o ddŵr yn datblygu ochr yn ochr â'n harbenigedd sylweddol wrth ymdrin â thanau gwyllt. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio ar y cyd yn y meysydd hyn ac felly rydym yn adeiladu partneriaethau cryf gyda sefydliadau eraill.


## Busnes

Mae dros 35,000 o fusnesau yn ein rhanbarth, gan gynnwys diwydiant trwm, gweithgynhyrchu, twristiaeth a hamdden. Mae ein hadran Diogelwch Tân i Fusnesau (DTF) yn cynnig cymorth ac yn monitro cydymffurfiaeth â diogelwch tân gan weithio gyda'r gymuned fusnes.

Mae cydweithwyr DTF hefyd yn gweithio'n helaeth gyda'r sawl sy'n gyfrifol am leoliadau busnes ac adeiladau uchel, gan gynnwys y sectorau gofal, gofal iechyd a sectorau tai cymdeithasol.



# Yn 2021-2022, fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru:



Ddelio â  
**32,454**  
o alwadau brys



Dderbyn  
**403**  
o Alwadau Ffug/Maleisus



Ac o'r rhain, heriwyd  
**142**  
neu na fynychwyd am reswm arall



Ymatebwyd i  
**17,502**  
o ddigwyddiadau



Lle'r oedd  
**5,566**  
yn danau



**8,367**  
yn alwadau ffug



**2,711**  
yn alwadau  
gwasanaeth  
arbennig eraill \*



**858**  
yn Wrthdrawiadau  
Traffig ar y Ffrydd



**131**  
o'r rhain ynghlwm  
â datglymu pobl



Ymatebwyd i  
**3,975**  
o danau bwriadol



Mynychwyd  
**363**  
o danau cerbyd bwriadol



Derbyniwyd galwad i fynychu  
**614**  
o danau damweiniol yn y cartref



Cynhaliwyd  
**1,097**  
o ymweliadau  
CAI-4 ag ysgolion



ymgysylltu â  
**36,822**  
o bobl ifanc



Cynhaliwyd  
**8,121**  
o Archwiliadau Diogelwch  
yn y Cartref



Cynhaliwyd  
**702**  
o archwiliadau  
diogelwch tân

Rydym yn darparu  
**Ataliad,  
Diogelwch  
am Ymateb**

**24**

awr y dydd

**7**

diwrnod yr wythnos

**365**

diwrnod y flwyddyn

Can gostio dim ond

**92<sup>c</sup>**

y pen bob wythnos

\*digwyddiadau heblaw am Danau, Galwadau Ffug a Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffrydd

Mae data 2021-2022 yn arfaethedig ac fe all fod yn destun i newid



# Beth wnaethom yn 2021-2022 a sut wnaethom berfformio

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso ein perfformiad i sicrhau ein bod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Rydym felly yn gosod targedau blynyddol yn erbyn Dangosyddion Strategol Llywodraeth Cymru yn ogystal â chymharu ein perfformiad yn erbyn Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd rydym yn ei wneud yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol hynny. Mae'r Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CPTC) yn adolygu'r "grwpiau teuluol" sy'n galluogi cymharu gwasanaethau tân ac achub tebyg, a bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn adolygiadau yn y dyfodol.

 **5,566**

Roedd cyfanswm y tanau a fynychwyd yn debyg dros y tair blynedd diwethaf ac fe wnaethom berfformio'n well na'r disgwyl, er y bu cynnydd bach yn 2021-2022. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd mewn tanau glaswellt bwriadol a sbwriel.

 **858**

Wrth leddfu cyfyngiadau Covid-19, gwelwyd cynnydd mewn traffig y llynedd. Er bod cynnydd yn nifer y Gwrthdrawiadau Traffig a fynychwyd gan ein criwiau, roedd y cyfanswm yn is na'r lefelau cyn-bandemig. Bydd newidiadau tymor hwy mewn patrymau traffig, yn enwedig mewn perthynas â chymudo, yn cael eu monitro.

 **2,711**

Cynyddodd y Galwadau Gwasanaeth Arbennig eraill\* a fynychwyd yn 2020-2021 a rhagorwyd ar y targed a osodwyd gennym. Roedd y prif gynnydd mewn Cael Mynediad, a gynyddodd o 210 o alwadau i 342 a Chynorthwyo Asiantaethau Eraill a gynyddodd o 393 i 487 wrth i ni ddarparu cymorth i wasanaethau brys eraill.

 **8,367**

Fe wnaethom fynychu ychydig yn fwy o Alwadau Ffug y llynedd. Er bod nifer y galwadau a wnaed o fwriad da wedi gostwng o 242, cododd y rhai a achoswyd gan larymau tân awtomatig o nifer tebyg (+235). Cynyddodd galwadau ffug/maleisus o 50 i 261 er cafodd yr Ystafell Cyd-reoli Tân mwy o lwyddiant wrth adnabod galwadau o'r fath.

 **67**

Cynyddodd Marwolaethau ac Anafiadau o ganlyniad i Dân yn 2021-2022 o 13 i 67 ond dylid sylwi mai yn 2020-2021 y cofnodwyd y cyfanswm blynyddol isaf o ran cofnodion ers 2009-2010. Bu gostyngiad yn nifer y Marwolaethau o ganlyniad i Dân am yr ail flwyddyn yn olynol, ac roedd y rhan fwyaf o anafiadau lle bu angen i'r dioddefwr fynd i'r ysbyty yn rhai bach a heb fod yn ddifrifol.

 **58**


Er gwaetha'r cynnydd o 42 o farwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol yn 2020-2021, mae cyfanswm y 58 o ddioddefwyr yn 2021-2022 yn is na'r darged ac yn is na'r dair blynedd flaenorol.

 **83.8%**


Mae hwn yn fesur o ledaeniad tân mewn stop. Roeddem ychydig yn is na'n targed o 85%.

\*digwyddiadau heblaw am Danau, Galwadau Ffug a Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd  
Mae data 2021-2022 yn arfaethedig ac fe all fod yn destun i newid


## Allwedd




## Cyfanswm nifer y Tanau a fynychwyd




## Cyfanswm nifer y Galwadau Ffug a fynychwyd




## Cyfanswm nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd




## Cyfanswm nifer y Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill a fynychwyd




## % y Tanau Mewn Anheddau a gynhwyswyd yn yr ystafell lle y tarddasant



## Cyfanswm nifer y Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o Danau Damweiniol



## Cyfanswm nifer y Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o Holl Danau



Mae data 2021-2022 yn arfaethedig ac fe all fod yn destun i newid



# 2021-2022









## Cymariaethau â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru

|                                                                            | De Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Gogledd Cymru |
|----------------------------------------------------------------------------|----------|------------------------------|---------------|
| Cyfanswm nifer y tanau a fynychwyd                                         | 5,566    | 3,295                        | 1,879         |
| Cyfanswm nifer y galwadau ffug a fynychwyd                                 | 8,367    | 4,917                        | 2,517         |
| Cyfanswm nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a fynychwyd            | 858      | 694                          | 207           |
| Cyfanswm nifer y galwadau gwasanaeth arbennig eraill a fynychwyd           | 2,711    | 2,974                        | 751           |
| Cyfanswm nifer y marwolaethau ac anafiadau sy'n deillio o holl danau       | 67       | 34                           | 63            |
| Cyfanswm nifer y marwolaethau ac anafiadau sy'n deillio o danau damweiniol | 58       | 31                           | 54            |
| Canran y tanau mewn anheddau a gynhwyswyd yn yr ystafell lle y tarddasant  | 83.8%    | 82.5%                        | 87.6%         |

Am wybodaeth gan wasanaethau eraill:

[Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru](#)  
[Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru](#)  
[Ystadegau Cymru](#)

### Allwedd



Er mwyn cymharu ystadegau digwyddiadau yn well ar draws y tri GTA Cymreig, mae digwyddiadau ar gyfer 2021-2022 wedi'u rhannu â chyfanswm poblogaeth pob ardal ac yna wedi'u lluosio â nifer safonol i roi cyfraddau cyfatebol. Mae hyn yn dangos effaith digwyddiadau yn well. Sylwch mai ciplun ar gyfer un flwyddyn yw'r cymariaethau hyn a byddant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn enwedig mewn perthynas â chategoriâu â chyfansymiau llai.

Mae'r meincnodi hwn yn darparu mesur o'r gwasanaethau a ddarparwn i'n cymunedau ac yn llywio ein penderfyniadau strategol ill dau, gan nodi gwahaniaethau mewn galw a meysydd i'w gwella.

# Roedd gennym wyth Thema Strategol a nodau cefnogol yn 2021-2022

## Eich cadw'n Ddiogel

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru  
hydryth



Cymru o  
gymunedau  
cydlynus



Cymru  
iachach



Cymru sy'n gyfrifol  
yn fyd-eang



Canolbwyntio  
ar waith  
atal i helpu  
lleihau'r  
angen i chi  
ein galw ni

### Byddwn yn eich cadw'n ddiogel wrth:

- Leihau effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau
- Lleihau'r nifer o danau mewn anheddau a deall eu hachosion a'u hymddygiadau
- Lleihau'r nifer o Wrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTFF)
- Lleihau'r nifer o danau bwriadol
- Gwella diogelwch yn y dŵr ac o'i gwmpas
- Gwella diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau

### Beth oeddem yn bwriadu ei wneud yn 2021-2022 a beth wnaethom:

**Cydweithio â phartneriaid i leihau Arwyddion Tân Diangen (ATD - mynychu galwadau diangen a achosir gan systemau larymau tân)**

- Cyflwynwyd gweithdrefnau newydd i gynorthwyo gorsafoedd i fonitro ATD ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau addysg a chymdeithasau tai. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth o'r effaith ar y Gwasanaeth a'r rhai yr effeithir arnynt. Mae Gweithgor ATD yn parhau i fonitro a darparu cefnogaeth

**Gwerthuso gwybodaeth gan LEAF (Dysgu a Gwerthuso Ar Ôl Tân) i lywio gweithgareddau addysg ac atal tân wedi'u targedu**

- Bydd prosiect LEAF, sy'n ceisio deall profiad y rhai yr effeithir arnynt gan danau damweiniol mewn cartrefi, yn cael ei gefnogi gan ein hymarferwyr diogelwch yn y cartref. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cefnogi aelwydydd yn ogystal â gwella ein dealltwriaeth o'r digwyddiadau trawmatig hyn ac effeithiolrwydd ein hymateb

### Galluogi staff yr orsaf dân i gynnal Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref Manwl

- Yn dilyn cyfyngiadau'r pandemig, fe wnaethom ailddechrau Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref Manwl wyneb yn wyneb, gan roi cyngor diogelwch ychwanegol i aelwydydd am roi'r gorau i ysmegu, ymwybyddiaeth o garbon monocsid, atal troseddau a diogelwch codymau. Mae hyn yn cael ei gyflawni ar draws wyth o'n hawdurdodau unedol ac mae trafodaethau'n parhau gyda'r awdurdodau unedol eraill

### Ymchwilio i fentrau newydd ar gyfer addysg Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTFF) a gweithio gyda phartneriaid diogelwch ffyrdd i leihau GTFF

- Rydym yn darparu cyngor diogelwch ar y ffyrdd i dros 200 o bobl y mis trwy gyfuniad o ddigwyddiadau gan gynnwys 30-20 (gostyngiad cyflymder), Domino (diogelwch ar y ffyrdd a dargedodd bobl ifanc 15-25 oed) ac Opsiynau (defnyddio ffôn symudol neu beidio â gwisgo gwregys diogelwch). Rydym yn defnyddio canolfannau cymunedol lleol a chlybiau chwaraeon i gyrraedd ein cymunedau. Rydym wedi ehangu i feysydd newydd, gan ddatblygu partneriaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Cil-y-coed a Chas-gwent
- Mae ein hymagwedd at y fenter lleihau cyflymder 30-20 yn canolbwyntio ar 'newid ymddygiad' wrth i ni gydweithio â Llywodraeth Cymru a Gan Bwyll i roi cyngor ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Mae hwn wedi cael derbyniad da iawn a bydd yn parhau i gael ei gyflwyno yn ystod 2022

### Casglu gwybodaeth gudd a meithrin dull partneriaeth i leihau tanau bwriadol, tanau mewn anheddau a GTFF

- Mae ymarferwyr troseddau tân yn parhau i sefydlu partneriaethau cryf ac yn nodi cyfleoedd i leihau tanau bwriadol
- Mae'r prosiect Llechweddau Iach wedi ein gweld yn gweithio'n agos gyda chymunedau a phartneriaid gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Gwyllt De a Gorllewin Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i reoli ein bryniau'n well ar gyfer bywyd gwyllt, ac wrth wneud hynny, cefnogi'r cymunedau lleol yn y Rhondda
- Mae cynnal mentrau amlasiantaethol cyson, megis Ymgyrch Dawns Glaw (sy'n targedu tanau gwyllt), Ymgyrch Elstree (am ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd arfordirol) ac Ymgyrch Bang (a gynhelir yn ystod y cyfnod o gwmpas Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt) yn parhau. Mae nifer o leoliadau tipio anghyfreithlon wedi'u nodi a, thrwy weithio gydag asiantaethau partner, mae'r ardaloedd hyn wedi'u clirio i leihau'r cyfleoedd i gynnau tanau'n fwriadol. Rydym yn defnyddio gwybodaeth leol a data digwyddiadau i nodi lleoliadau allweddol ar gyfer patrolau er mwyn galluogi ymgysylltu lleol a chyfleoedd addysg, gan roi sicrwydd i'r gymuned leol
- Rydym yn datblygu adroddiadau i roi gwell gwybodaeth leol i orsafoedd, yn eu galluogi i gydlynu mentrau gyda chefnogaeth gan dimau ar draws y Gwasanaeth

### Cynhyrchu ymgyrch Tân Damweiniol mewn Anheddau Cymru Gyfan yn canolbwyntio ar diogelwch coginio, trydanol a chanhwyllau

- Rydym wedi parhau i hyrwyddo negeseuon diogelwch yn y cartref ar y testunau hyn mewn ymateb i dueddiadau digwyddiadau ac i gefnogi wythnosau diogelwch cenedlaethol. Mae'r gwaith o ddatblygu ymgyrch Cymru gyfan yn parhau

### Cynllunio ymweliadau Diffoddwyr Tân ag adeiladau i nodi a lliniaru risgiau a chasglu gwybodaeth risg safle-benodol (SSRI), i sicrhau diogelwch staff

- Rydym wedi gwella systemau cofnodi a monitro i orsafoedd fonitro risg lleol. Cefnogir hyn gan weithgorau a grwpiau strategol, gan ddod â chydweithwyr o bob rhan o'r Gwasanaeth ynghyd i gasglu a rhannu gwybodaeth risg. Mae gwaith ar waith i sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael pan fo'i hangen



### Cyflawni camau a nodwyd yn y “prosiect adeiladau uchel”

Mae'r Gweithgor Tyrrau Uchel yn parhau i gydlynu gweithgarwch, gan gefnogi cydweithwyr a rhanddeiliaid

Mae ein hadran Diogelwch Tân i Fusnesau yn gweithio gyda phersonau cyfrifol lle mae Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm (ACM) a chladin hylosg arall wedi'u nodi, gan fonitro cynnydd y gwaith adfer

Cyflwynwyd 'Deddf Diogelwch Tân Cymru 2021' ar y 1af o Hydref 2021 ac erbyn hyn mae wedi'i hymgorffori yn y rhaglen arolygu, gan ei gwneud yn ofynnol i Bersonau Cyfrifol ddarparu manylion y deunydd a ddefnyddiwyd. Rydym yn aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar agweddau eraill o'r Ddeddf

Mae'r holl adeiladau preswyl uchel wedi derbyn archwiliadau Cam 1/Cam 2 yn ymgorffori canllawiau diweddaraf y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CPTC) yn ymwneud ag adrannau, sy'n atal tân rhag lledaenu. Mae ein hymarferwyr diogelwch cymunedol yn ymgysylltu â thrigolion adeiladau uchel. Mae polisi Canllawiau Goroesi Tân Cymru Gyfan wedi'i gynhyrchu

### Gwella ansawdd y data a gasglwn yn dilyn digwyddiad i adnabod a thargedu dinasyddion risg uwch o fewn ein cymunedau

- Darparwyd hyfforddiant rhithwir ac wyneb yn wyneb ill dau ar gwblhau cofnodion System Cofnodi Digwyddiad (IRS), gan gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau a fynychwyd. Mae hyfforddiant hefyd wedi'i roi i orsafoedd ar gwblhau cofnodion o wiriadau diogelwch yn y cartref. Mae dadansoddiad o'r wybodaeth hon yn goleuo ein cynllunio ar gyfer lleihau risg

### Nodi gwelliannau gweithredol y gallir eu gwneud o ganlyniad i'n Strategaeth Achub o Ddŵr

- Mae Strategaeth Achub o Ddŵr 2021-2026 yn amlinellu gwelliannau arfaethedig i'n gallu i achub ac mae wedi'i rhaglennu fesul cam
- Yng Ngham 1 rydym wedi codi lefel sgiliau ein gorsafoedd tender achub i allu Math C (y gallu i fynd i'r ddŵr a chyflawni achubiad cyflym o ddŵr)
- Yng Ngham 2 bydd pob gorsaf amser cyflawn yn cyflawni gallu Math D (y gallu i fynd i ddŵr bas sy'n symud yn araf i helpu achub rhag llifogydd)
- Fe wnaethom barhau â'n gwaith gyda gweithgorau achub ddŵr cenedlaethol, gan gynnwys Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) a Nofio Cymru, i gyflwyno rhybuddion a gwybodaeth i'r cyhoedd. Mewn cydweithrediad â'r RNLI, rydym yn darparu hyfforddiant i sefydliadau a gweithredwyr gyda'n cyrsiau ddŵr, gan gynnwys sesiynau ar gyfer wardeniaid parc Cyngor Caerdydd yn Blackweir, Caerdydd
- Dechreuwyd treialon yn ardaloedd Caerffili a Chaerdydd i sefydlu pecyn cymorth risg ddŵr i'w ddefnyddio ar draws y Gwasanaeth, gan alluogi gorsafoedd i ddatblygu proffiliau risg lleol, cynllunio ymateb gweithredol a chynnal ymarferion yn ei erbyn. Bydd hyn yn helpu nodi safleoedd priodol ar gyfer offer achub cyhoeddus.
- Fe wnaethom gynnal digwyddiad i deuluoedd i gefnogi'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan fodd yng Nghymru. Roedd hwn yn ddigwyddiad emosynol iawn gyda theuluoedd yn cael eu gwahodd i ddod at ei gilydd yn fwy rheolaidd i gefnogi ei gilydd a chychwyn eu hymgyrchoedd eu hunain i gefnogi atal boddi

### Cyflawni prosiect Llwybr Afon Wysg (llwybr y gallir ei ddefnyddio yn ystod llifogydd) a gweithio gyda Diogelwch Dŵr Cymru i leihau digwyddiadau sy'n ymwneud â ddŵr

- Sicrhawyd cyllid i gychwyn prosiect Llwybr Afon Wysg, a fydd yn darparu man lansio cychod y gallir ei ddefnyddio yn agos at ganol dinas Casnewydd. Rydym yn gweithio gyda'r ymgynghorwyr adeiladu i ddatblygu'r cynllun hwn





## Ymateb i'ch Argyfwng

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru hydwyth



Cymry iachach



Sicrhau ein bod ni'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch

### Byddwn yn ymateb i'ch argyfwng drwy:

- Ymateb yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch
- Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau argaeledd ein criwiau System Ddyletswydd Ar Alwad (SDdAA)
- Hyfforddi ein Diffoddwyr Tân, Staff Rheoli Tân brys a'r staff ystafell reoli a staff eraill i ymateb i risgiau cyfredol a'r dyfodol

### Beth roeddem yn bwriadu ei wneud yn 2021-2022 a beth wnaethom:

#### Canolbwyntio ar gynyddu cyfraddau cadw ac argaeledd ein diffoddwyr tân ar alwad

- Mae amserlenni ar gyfer camau recriwtio ar alwad wedi'u lleihau, gan alluogi ymgeiswyr i gael mynediad at y cwrs cychwynnol yn gynt
- Datblygwyd diwrnodau recriwtio ar alwad yn cynnwys prawf gallu, asesiad corfforol ac ymarferol, a chyfweliad mewn un sesiwn. Cefnogir gorsafoedd gan y Timau Ar Alwad a'r Wasg a Chyfathrebiadau wrth hyrwyddo cyfleoedd. Mae llyfryn Datblygu Ar Alwad newydd yn rhoi cynllun pedair wythnos cyn eu cwrs cychwynnol i ymgeiswyr. Mae hyn wedi gwella perfformiad a lleihau nifer y recriwtiaid aflwyddiannus

#### Sicrhau bydd hydwythedd mewn lle i gefnogi cyfnodau prysuraf yn yr Ystafell Cyd-reoli Tân (CRT)

- Ailstrwythurwyd yr Ystafell Cyd-reoli Tân a hyfforddwyd carfan o recriwtiaid newydd. Bydd argymhellion o ganlyniad adolygiad diweddar yn cael eu gweithredu. Aethwyd ymlaen ag Ymgyrch Willow Beck, sy'n cynllunio i wasanaethau tân a darparu cymorth ar y cyd yn ystod cyfnodau o alwadau uchel

#### Ystyried system contractau newydd ar gyfer ein cronfa strategol wrth gefn (diffoddwyr tân llawn amser yn cyflenwi pan fydd prinder criwiau mewn gorsafoedd tân ar alwad), i ddrychafu argaeledd ar alwad

- Cyflwynwyd "Cymorth Ar Alwad" ym mis Chwefror 2022 ac mae'n agored i'r holl ddiffoddwyr tân amser cyflawn cymwys i gyflenwi pan fydd niferoedd yn annigonol mewn gorsafoedd ar alwad ar ddau ddiwrnod gorffwys ar ganol eu system rota

#### Gwella'r llwybr hyfforddi o'r recriwtio cychwynnol i ddiffoddwr tân ar alwad cymwys

- Buom yn gweithio gyda'n partner, Sgiliau er Cyfiawnder, i werthuso, cynllunio a gweithredu newidiadau i'r cymhwyster Ar Alwad ac rydym yn parhau i adnabod cyfleoedd i wella effeithlonrwydd o fewn y llwybr Ar Alwad

### Adolygu sgiliau cymhwysedd craidd yr holl staff gweithredol i fynd i'r afael â risgiau sy'n dod i'r amlwg yn y dyfodol

- Fe wnaethom sefydlu prosiect i werthuso pecynnau e-ddysgu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl bolisiau a chanllawiau perthnasol. Bydd y prosiect yn parhau i ddarparu system gymorth yn 2022-2023
- Datblygwyd y system archwilio flynyddol gan ein Tîm Sicrwydd a Chymorth Gweithredol (OAST) mewn cydweithrediad â'r Tîm Datblygu ac Adolygu Gweithredol (ORDT) a'r Adran Hyfforddiant er mwyn adnabod themâu allweddol ar gyfer gwelliant

### Sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir yn adlewyrchu Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol, gan gynnal cysondeb ar draws y Gwasanaeth ac ar sail GTA Cymru gyfan

- Mae Grŵp Gweithredu'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol yn ymgynghori â'n gweithgorau arbenigol i argymhell diweddariadau i ddeunyddiau hyfforddi. Yna, mae'r Uned Cymorth Hyfforddiant yn rhoi newidiadau ar waith i sicrhau bod ein diffoddwyr tân yn cael y canllawiau diweddaraf

### Cynllunio ymarferion hyfforddi, sy'n cynnwys 10 neu fwy o beiriannau tân, ar gyfer safleoedd risg uchel a nodwyd i ddatblygu Penaethiaid Digwyddiad

- Cynhaliwyd dau ymarfer ar raddfa fawr, oedd yn ategu ymarferion lleol, yn 2021. Mae lleoliadau pellach a themâu penodol yn cael eu adnabod i brofi a datblygu gallu gweithredol
- Roedd ymarferion 'Ifor' a 'Tŵr Heriol' yn cynnwys mwy na 10 injan dân a pheiriannau arbennig yn ogystal â gwasanaethau brys eraill a phartneriaid. Roedd ymarferion 'Ifor' yn efelychu digwyddiad rheilffordd cymhleth ac roedd 'Tŵr Heriol' yn ddigwyddiad aml-lawr

### Dyrchafu gallu penaethiaid gorsaf i ysgogi diwylliant sy'n seiliedig ar berfformiad a gweithredu'r broses Adolygiad Personol newydd

- Ymgysylltodd ein OAST â staff yr orsaf wyneb yn wyneb ac yn rhithwir ill dau trwy gyrsiau sefydlu cychwynnol, seminarau, archwiliadau a chyfarfodydd i godi ymwybyddiaeth o ffyrdd o gasglu data perfformiad a dylanwadu ar ganlyniadau yn y dyfodol.
- Cyflwynwyd proses Adolygiad Personol newydd i gefnogi trafodaeth agored ynghylch llesiant a dyheadau gyrfaol, gan gynnwys ein holl staff yn 2021-2022



## Gweithio gyda Phartneriaid

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru  
hydwyth



Cymru o  
gymunedau  
cydlynus



Cymru sy'n gyfrifol  
yn fyd-eang



Cymru  
lewyrchus



Gweithio  
gyda BGC  
De Cymru a  
phartneriaid  
eraill i  
ddarparu  
Gwasanaeth  
Tân ac  
Achub sy'n  
cwrdd â'ch  
anghenion

### Byddem yn gweithio gyda'n partneriaid wrth:

- Weithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i gefnogi ein cymunedau
- Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle mae eu hangen
- Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau cyfredol

### Beth roeddem yn bwriadu ei wneud yn 2021-2022 a beth wnaethom:

#### Cefnogi'n cydweithwyr gwasanaethau brys a'n partneriaid yn ystod ac ar ôl pandemig Covid-19

- Parhaom i gefnogi ein cydweithwyr yn GIG Cymru a Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwylans Cymru (WAST) yn ystod y pandemig – gan yrru ambiwlansys, rhoi brechlynnau a gweithio mewn canolfannau brechu cymunedol, gyda dros 100 o'n staff yn gwirfoddoli i gynorthwyo
- Gweithio gyda'n Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid eraill i gefnogi adferiad cymunedol ar ôl Covid-19
- Parhaodd ein Rheolwyr Gweithredol i ymgysylltu drwy'r BGC a'u his-grwpiau i sicrhau ein bod yn darparu cymorth lle bynnag y bo angen, tra bod gorsafoedd yn ymgysylltu â chymunedau lleol

#### Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion y Papur Gwyn “Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru”

- Parhaom i gydweithredu â Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i roi argymhellion y Papur Gwyn hwn ar waith a fydd yn ailwampio'r system gyfredol ar gyfer diogelwch adeiladau yng Nghymru

#### Cefnogi grŵp llywio Lliniaru Hinsawdd Gwent a chymhwyso'r arfer orau perthnasol

- Yn ogystal â chefnogi Grŵp Lliniaru Hinsawdd Gwent a'n BGC yn eu camau gweithredu i fynd i'r afael â materion hinsawdd, mae gwaith wedi digwydd gyda Siarteri Teithio Iach Gwent a Chaerdydd

#### Gweithio gyda'r Porth Gwerth Cymdeithasol i ymgorffori'r Themâu, Canlyniadau a Mesurau cenedlaethol (TOMS) yn ein prosesau caffael

- Rydym yn gweithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i ymgorffori cymalau am werthoedd cymdeithasol o fewn cytundebau perthnasol. Mae ymgynghori ehangach yn digwydd ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ar ddulliau o gofnodi a rheoli gwerth cymdeithasol. Mae Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), a ddaw i rym yn 2023, yn darparu dyletswydd i sicrhau bod canlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol yn cael eu dilyn drwy gadwyni cyflenwi. Mae hyn yn cefnogi nod DLICD o “Gymru Ffyniannus”

#### Hybu'r prosiect rhannu data rhwng ein Gwasanaeth a'r ddau GTA eraill yng Nghymru

Mae gallu rhannu data yn hanfodol ar gyfer ymateb brys effeithiol i ddigwyddiadau critigol, megis Storm Dennis yn 2020 lle effeithiodd llifogydd a difrod stormydd ar bobl, eiddo a busnesau. Mae Grŵp Gwasanaethau Brys Cymru ar y Cyd (JESG) wedi cydlynu gwaith gydag asiantaethau lluosol i alluogi rhannu data ar gyfer parodrwydd ac ymateb

### Cydlynu strategaeth gyda'n partneriaid gwasanaethau brys i ddatblygu cyfleoedd cydleoli yn y dyfodol

- Cychwynnwyd ymarfer mapio i adnabod a mapio holl safleoedd y gwasanaethau brys, gan ddatblygu meini prawf i fonitro eu haddasrwydd a'u cyflwr. Bydd hyn yn gymorth ar gyfer cynllunio i'r dyfodol ac rydym yn ymchwilio i'r defnydd o [MapDataCymru](#) i rannu gwybodaeth gan ddefnyddio llwyfan ar-lein diogel

### Cefnogi'r cytundeb gofal iechyd i feithrin cydberthnasau gwaith agosach â Byrddau Iechyd Prifysgol (BIP)

- Mae Diogelwch Tân i Fusnesau (DTF) yn cefnogi'r compact gofal iechyd i feithrin perthynas waith agosach â BIP. Cytundeb gwirfoddol rhwng Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Prif Swyddogion Tân Cymru yw hwn. Mae e'n helpu lleihau risgiau mewn ysbytai a safleoedd gwasanaeth iechyd eraill ac mae ein gwaith yn cynnwys:
  - Rhannu gwybodaeth a rhoi cyngor ar alwadau diangen a galwadau tân
  - Rhoi cyngor ar reoliadau adeiladu

### Adolygu ein cofrestr rhanddeiliaid a phartneriaethau mewn perthynas â'n rhwymedigaethau yn unol â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd

- Mae ein Grŵp Ymgynghori ac Ymgysylltu wedi arwain ar yr adolygiad hwn i sicrhau ein bod yn ymgysylltu ag ystod eang o bartneriaid. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cysylltu ac yn ymgysylltu'n effeithiol â'n cymunedau, a bod ein cynlluniau'n cael eu cydlynu i gwrdd â heriau a rennir. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae pecyn cymorth ymgysylltu newydd yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo gorsafoedd ac adrannau ar draws y Gwasanaeth yn eu gwaith gyda chymunedau a phartneriaid

### Adnabod dulliau a chyfleoedd newydd i gynnal hyfforddiant ar y cyd â phartneriaid

- Yn ystod Ymgynghori 'lfor' profwyd ein hymateb i ddigwyddiad rheilffordd mawr ac roedd Ymarferiad 'Tŵr Heriol' yn ymateb amlasiantaethol i ddigwyddiad aml-lawr. Roedd y sefydliadau partner a gymerodd ran yn cynnwys Heddlu De Cymru, WAST, y Tîm Ymateb i Ardaloedd Peryglus (HART), Prifysgol Caerdydd, Cyngor Caerdydd a Dŵr Cymru
- O fewn y maes Diogelwch Cymunedol, mae pecynnau hyfforddi ar lefel weithredol a strategol wedi'u datblygu gan ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau, gan gynnwys wyneb yn wyneb (ar y safle ac oddi ar y safle), llwyfannau rhithwir a lleoliadau amlasiantaethol. Mae gweithio gyda phartneriaid i hyfforddi ymarferwyr diogelwch cymunedol wedi cryfhau perthnasoedd a chodi ymwybyddiaeth, gan gynorthwyo gydag atgyfeiriadau dwy ffordd a chyfeirio, gan wella ein gwasanaeth i'r cyhoedd. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:
  - Cynhaliom Hyfforddiant Dementia WAST ac Ymwybyddiaeth o Alluedd Meddyliol gan Arweinydd Galluedd Meddyliol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) a gweithio'n agos gyda Gwelliant Cymru i wella darparu gwasanaethau
  - Hyfforddwyd ymarferwyr diogelwch cymunedol i osod a chysylltu synwryddion mwg, gwres a charbon monocsid Teleofal mewn cartrefi risg uchel i gwsmeriaid cyfredol Gwasanaeth Teleofal Caerdydd (sy'n cyflenwi larymau crog)
  - Darparodd yr adran Gofal a Thrwsio hyfforddiant ar eu gwasanaethau fel y gallwn gyfeirio atynt yn uniongyrchol
  - Sefydldom lwybr atgyfeirio Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru Gyfan ar gyfer staff WAST sy'n ymweld â chartrefi risg uchel, gan ddarparu pecyn hyfforddi o bell a llwybr hawdd i'w atgyfeirio ill dau
    - Er mwyn cynyddu dealltwriaeth o risg tân uchel, darparwyd hyfforddiant i staff BIPAB gan gynnwys nyrsys ardal
    - Cyflwynwyd hyfforddiant i staff Western Power Distribution ar osod larymau mwg

### Archwilio i bartneriaethau newydd a ffyrdd arloesol o gydweithio â grwpiau tai cymdeithasol

- Ni yw deiliad Cynllun Prif Awdurdod Cartrefi Cymunedol Cymru, sef y sefydliad ymbarél ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi cyngor safonol i sefydliadau o un pwynt cyswllt. Dan arweiniad Diogelwch Tân i Fusnesau, rydym wedi rhoi cyngor ar fanyleb drws tân a chynnal cyflwyniad rhithwir a fynychwyd gan dros 60 o gynrychiolwyr cymdeithasau tai

## Ymgysylltu a Chyfathrebu

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru  
hydwyth



Cymru o  
gymunedau  
cydlynus



Cymru o ddiwylliant  
bywiog ac iaith  
Gymraeg ffyniannus



Cymru fwy  
cyfartal



Sicrhau  
bod ein holl  
gymunedau  
a staff yn cael  
eu cynnwys  
wrth ein  
helpu i  
ddarparu  
gwasanaeth  
rhagorol

### Byddem yn ymgysylltu a chyfathrebu drwy:

- Cynnwys ein cymunedau a sicrhau eu bod yn cael dweud eu dweud yn yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Helpu i gadw ein cymunedau'n ddiogel drwy ddarparu addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau cymunedol

### Beth roeddem yn bwriadu ei wneud yn 2021-2022 a beth wnaethom:

#### Datblygu a chyflwyno "ap" cyfathrebiadau ar gyfer y Gwasanaeth cyfan i'r holl staff

- Mae ein hap staff yn fyw ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gyda'r newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth. Bydd datblygiadau yn cael eu harwain gan adborth gan ddefnyddwyr yn y dyfodol

#### Sefydlu offeryn adrodd i olrhain ein cynnydd yn erbyn argymhellion a chynllun gweithredu newydd Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP)

- Rydym wedi defnyddio ein System Wybodaeth Rheoli Busnes (BMIS) i ddatblygu ac olrhain cynllun gweithredu BmP

#### Datblygu cynllun ymgysylltu nad ydw'n ddigidol i gysylltu â'n cymunedau a'u cynnwys, fel defnyddio cerbydau hysbysfyrddau ar gyfer negeseuon addysg allgymorth

- Rydym wedi cysylltu â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ynghylch allgáu digidol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ein dyletswydd economaidd-gymdeithasol, gan y gallai'r sawl sy'n fwyaf agored i niwed gael eu heithrio rhag cyrchu gwybodaeth drwy lwyfannau digidol am amryw o resymau
- Ystyrir dulliau nad ydynt yn rhai digidol ym mhob cynllun ymgyrchu mawr a chyfeirir atynt yn ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd 2022-2025. Mae'r dulliau a ddefnyddir, megis ein hymgyrch diogelwch dros y Nadolig ac ymgyrchoedd recriwtio Diffoddwyr Tân amser cyflawn, yn cynnwys defnyddio cerbydau hysbysfyrddau, taflenni, pamffledi, hysbysebion papur newydd, y radio a'r teledu, baneri awyr agored mewn gorsafoedd a digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb

#### Codi ymwybyddiaeth ar draws y Gwasanaeth, a chyfathrebu gyda phartneriaid allanol, i gael syniadau ar gyfer lleihau carbon

- Enwebwyd hyrwyddwyr cynaliadwyedd o bob adran a sefydlwyd Grŵp Llywio Cynaliadwyedd. Bydd y grŵp hwn yn ymgysylltu â staff ac yn eu cynnwys wrth gynllunio ar gyfer lleihau allyriadau carbon, gan annog perchnogaeth ar y cyd o gynlluniau i leihau ôl troed carbon y Gwasanaeth. Bydd hyrwyddwyr yn annog syniadau ar gyfer cyflawni camau gweithredu allweddol


### Hwyluso mwy o rannu a chyfnwio gwybodaeth rhwng rheolwyr ein gorsafoedd a'n tîm rheoli gweithrediadau

- Rydym wedi gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu trwy osod offer fideo-gynadledda ym mhob gorsaf. Cynhelir cyfarfodydd ar-lein rheolaidd hefyd gyda phob rheolwr gorsaf

### Cynyddu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan orsafoedd i rannu straeon newyddion da a negeseuon diogelwch cymunedol

- Fe wnaethom ehangu ein gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, ac ailfywiogi tudalennau Facebook gorsafoedd i ymgysylltu mwy â'n cymunedau. Pan fydd ysgolion yn rhannu diweddiadau gyda ni am y cyfryngau cymdeithasol yn dilyn ymweliadau ysgol, rydym yn diolch iddynt neu'n rhannu negeseuon ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol

#### Cynnydd yn nifer y dilynwyr cyfryngau cymdeithasol



### Gweithio gyda'n hysgolion a'n colegau i gyflwyno dulliau arloesol o ymdrin ag addysg diogelwch rhag tân ac ar y ffyrdd Cyfnod Allweddol 1-4

- Defnyddiom ddull cyfunol drwy ddefnyddio Microsoft Teams i gyflwyno dosbarthiadau o bell. Roedd hyn yn cefnogi ysgolion i gynnal sesiynau addysgol gwerth chweil.
- Cyflwynom 'Pantomeim Bernie' i 1,336 o ffyrwyr ar draws 18 o ysgolion yn Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent a Chaerffili. Mae'r adnodd hwn yn darparu pantomeim dwyieithog sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, sy'n briodol i'r gynulleidfa ac sy'n ennyn diddordeb ac yn addysgu disgyblion am berygl tanau glaswellt bwriadol



# Diogelu ein Hamgylchedd

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang



Cymru iachach



Cymru hydwyth



Cymru o gymunedau cydlynus

Cynnal ein gweithgareddau mewn modd fydd yn helpu cynnal y ddaear ar gyfer genhedloedd y dyfodol

## Byddem yn diogelu ein hamgylchedd trwy:

- Lleihau'r defnydd o ddeunyddiau untro
- Ehangu'r defnydd o gerbydau trydan (CT)
- Lleihau ein hynni a'n hôl troed carbon
- Ystyried sut mae ein gweithgareddau yn effeithio ar yr amgylchedd
- Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir

## Beth roeddem yn bwriadu ei wneud yn 2021-2022 a beth wnaethom:

### Gweithredu camau a nodwyd yn ein Cynllun Lleihau Carbon 2020-2023

- Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adolygu ein Cynllun Lleihau Carbon gan wneud nifer o argymhellion y byddwn yn eu rhoi ar waith
- Er mwyn cyrraedd y targedau heriol o ran lleihau allyriadau carbon a bioamrywiaeth a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru, cydnabuwyd yr angen am arbenigedd ychwanegol felly recriwtiwyd ein Swyddog Cynaliadwyedd, a darparwyd cymorth ychwanegol gan un o raddedigion Cynllun Graddedigion Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru. Byddant o gymorth mawr i ni wella ein cynlluniau i gyflawni ein nodau cynaliadwyedd

### Cofnodi, monitro, adrodd a chyhoeddi ein heffeithiau carbon, ein defnydd o ynni a gwastraff a gynhyrchir

- Rydym yn parhau i weithio i sefydlu mesurau i fonitro cynnydd yn erbyn blwyddyn sylfaen 2018-2019. Bydd cytundeb gwastraff newydd yn cael ei ddyfarnu yn 2022-2023, yn ein galluogi i fonitro ein gwastraff yn fwy effeithiol
- Mae mesur ynni wedi symud ymlaen i nodi defnydd ar lefel gorsaf. Mae elfennau eraill o'n mesur ôl troed carbon wedi'u datblygu, gan gynnwys addasiadau i roi cyfrif am ddisodli ceir pwll disel â cherbydau trydan
- Erbyn y 1af o Ebrill 2022, roedd gennym 27 o bwyntiau gwefru deuol mewn 11 o orsafoedd strategol, y Pencadlys a Chanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd

### Gweithredu seilwaith gwefru cerbydau trydan ychwanegol ar draws y Gwasanaeth

- Mae rhan gyntaf y gweithredu ar safleoedd strategol wedi'i chwblhau ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd a 11 safle arall ac mae gosodiadau pellach yn yr arfaeth. Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith hwn, i ddarparu pwyntiau gwefru CT i ni ym mhob safle erbyn diwedd 2022-2023

## Archwilio mwy o gyfleoedd i fynd yn "ddi-bapur" a sicrhau bod eitemau hyrwyddo/marchnata yn ecogyfeillgar

- Anogir osgoi deunyddiau untro megis taflenni erbyn hyn ac fe'u disodlwyd gan negeseuon trwy law ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhaid cadw rhai deunyddiau hanfodol o hyd, er enghraifft dosbarthu taflenni mewn banciau bwyd, fel bod gwybodaeth ar gael i bawb
- Bydd angen papur bob amser ar orsafoedd ond mae camau i leihau ac ailgylchu yn gwella, gyda chymorth dyfeisiau symudol yn cael eu cyflwyno. Mae argraffu mewn gorsafoedd erbyn hyn yn cael ei fonitro ac mae archebu papur wedi lleihau

### Ymchwilio i leihau teithio diangen ymhellach

- Mae fforymau staff megis digwyddiadau ar gyfer ein harweinwyr canol yn cael eu cynnal ar-lein gyda grwpiau'n ffonio mewn o orsafoedd a darperir hyfforddiant drwy law llwyfannau ar-lein lle bo modd
- Cynhelir cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub ar-lein, ac mae fideos o gyfarfodydd ar gael ar ein gwefan
- Mae dros 30% o gyfarfodydd yr adran Lleihau Risg bellach yn cael eu cynnal yn rhithwir, gan ddileu'r angen i deithio, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella hyn hyd yn oed yn fwy

### Ystyried defnyddio dŵr glaw a dŵr tanc peiriannau tân i gyflawni cynaliadwyedd dŵr

- Mae prosiect ar waith a gofynnwyd i gwmnïau ddarparu costau i ddatblygu system i ddal dŵr glaw - i gychwyn bydd hyn ar gyfer Fflyd y Pencadlys i lanhau cerbydau. Rydym yn archwilio cwmipas y defnydd o ddŵr glaw
- Rhoi atebion ynni gwyrdd ar waith, lle bo'n briodol, a chynnwys cynaliadwyedd yn ein proses ddylunio
- Rydym yn archwilio atebion ynni gwyrdd ar gyfer yr holl brosiectau mawr, ac rydym yn ymchwilio i opsiynau ôl-ffitio ar gyfer Pencadlys y Gwasanaeth Tân a safleoedd eraill

### Lleihau oedran ein peiriannau tân rheng flaen i 12 mlynedd i leihau'r effaith ar yr amgylchedd a gwella diogelwch

- Mae ein Rhaglen Amnewid Cerbydau wedi'i hadolygu i adlewyrchu'r nod hwn, a fydd yn gwella effeithlonrwydd ein fflyd. Sylwch nad yw hyn yn cynnwys offer arbenigol

## Defnyddio Technoleg yn Dda

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang



Cymru hydwyth



Cymru iachach



Edrych yn barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i wella ein gwasanaeth i chi

### Defnyddiwn dechnoleg yn dda drwy:

- Ddefnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf priodol i wella ein gwasanaethau
- Adolygu safon a'r defnydd o dechnoleg ac offer ar draws y Gwasanaeth

### Beth a fwriadom ei wneud yn 2021-2022 a beth wnaethom:

**Archwilio'r defnydd o dabledi symudol ar orsafoedd a'r defnydd o feddalwedd llywio a ffonau clyfar ar beiriannau tân**

- Darparwyd llechi symudol ar gyfer swyddogion gweithredol a bwriedir cyflwyno mwy. Bydd y rhain yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac yn gwella cofnodi gweithgareddau
- Dechreuwyd treialu dyfeisiau symudol ar beiriannau. Mae hyn yn galluogi mewnbynnu data diogelwch cymunedol a digwyddiadau yn ogystal â chael mynediad i apiau megis Fly Mapper, gan alluogi criwiau i adrodd am achosion o dipio anghyfreithlon yn uniongyrchol i'r awdurdod lleol perthnasol

**Disodli ein hoffer cynhyrchiant swyddfa diwedd oes gyda Microsoft Office 365 ac ymgorffori gwelliannau mewn gweithio cydweithredol ac ystwyth, gan ddefnyddio Microsoft Teams**

- Dechreuodd y gwaith uwchraddio systemau yn Haf 2021 gyda chyflwyniad Microsoft Office 365, gyda'r nod o fudo personél gorsafoedd yn Hydref 2022. Mae'r cam cychwynnol, sy'n cynnwys adrannau'r Pencadlys, eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar arferion gwaith gan fod adrannau'n gallu cydweithio'n fwy effeithiol

**Adolygu systemau mur gwarchod y Pencadlys, Fflyd, Cyd-reoli Tân (CRT), Rheoli Asedau, a Chyllid a Chaffael**

- Mae gwaith ar wal dân fewnol y Pencadlys wedi symud ymlaen, ac mae system newydd yn cael ei chaffael
- Mae system Tranman, a ddefnyddir gan ein Hadrannau Fflyd a Pheirianneg i reoli gwybodaeth am ein cerbydau, wedi'i huwchraddio. Hyfforddwyd yr holl staff Fflyd a Pheirianneg, a bydd datblygiad yn y dyfodol yn cynnwys hyfforddiant i staff gweithredol i wella eu defnydd o'r system
- Archwiliwyd gofynion y system Rheoli Asedau a bydd opsiynau'n cael eu profi cyn gwneud penderfyniad terfynol ar unrhyw newid
- Bydd gwaith ar CRT, Cyllid a Systemau Caffael yn cael ei ddatblygu yn 2022-2023

**Adolygu datblygiadau mewn technoleg sy'n darparu gwelliant o ran darganfod dogfennau a diogelwch**

- Mae uwchraddio ein system SharePoint wedi galluogi datblygiad llyfrgell ar-lein ganolog. Bydd hyn yn gwella'r broses o adnabod dogfennau sy'n bodloni meini prawf penodol

**Corffori'r defnydd o feddalwedd pleidleisio a ddefnyddir i annog a hwyluso ymgysylltu**

- Defnyddiwn feddalwedd pleidleisio i hwyluso cyfranogiad y gynulleidfa mewn cyfarfodydd mawr, digwyddiadau ymgysylltu a diwrnodau hyfforddi. Mae hyn yn galluogi mynychwyr i gyflwyno cwestiynau a rhyngweithio â phleidleisiau a gynlluniwyd i gasglu adborth. Mae hyn yn ein helpu i lunio digwyddiadau ar gyfer y dyfodol yn effeithiol

**Creu cynllun gweithredu ar gyfer dylunio a chyflawni ein Prosiect Mewnrwyd**

- Mae system fewnrwyd fewnol y Gwasanaeth wedi'i hailgynllunio a'i huwchraddio. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu cynnwys ac adnoddau ychwanegol i gefnogi staff

**Cyflwyno modiwlau doniau a rheoli presenoldeb CoreHR**

- CoreHR yw ein system ganolog ar gyfer adnoddau dynol. Mae'r modiwl doniau yn cefnogi ein proses Adolygiad Personol, gan gofnodi cyfarfodydd lles a datblygiad a gynhelir yn gyson i staff gyda'u rheolwyr. Aeth hwn yn fyw ym mis Ebrill 2021 a bydd yn cael ei ategu gan y System Rheoli Dysgu sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd
- Bydd y modiwl Rheoli Presenoldeb yn cael ei ddatblygu yn 2022-2023

**Datblygu adroddiadau mwy awtomataidd ar gyfer ein hadran Adnoddau Dynol gan System Gwybodaeth Rheoli Busnes (BMIS)**

- Mae ein SGRHB yn darparu dangosfyrddau ac ystadegau i reolwyr a thimau ar draws y Gwasanaeth. Adolygir adroddiadau ar gyfer Adnoddau Dynol yn rheolaidd ac mae'n parhau i ddatblygu

**Rhoi ar waith unrhyw ganfyddiadau o'n hadolygiad i sut rydym yn modelu risg fel sefydliad**

- Cynhaliwyd adolygiad o fodelu risg ac rydym yn archwilio'r canfyddiadau

**Dylunio a chyflawni gwelliannau i'n cynllun Adfer ar ôl Trychineb, yn unol â phrosiect amnewid technoleg CRT gyda Heddlu De Cymru**

- Ar sail yr hyn a ddysgwyd o ymateb Covid-19, mae adolygiad ar y gweill

**Ennill achrediad i Cyber Essentials Plus**

- Mae Cyber Essentials Plus yn brawf trwyadl o drefniadau seiberddiogelwch sefydliad. Rydym yn parhau i ddiweddarau ein systemau er mwyn cydymffurfio â'r achrediad hwn. Bydd yn rhoi sicrwydd bod y Gwasanaeth wedi rhoi ystod o fesurau seiberddiogelwch a diogelu data ar waith.



## Gwerthfawrogi ein Pobl

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru fwy  
cyfartal



Cymru  
iachach



Cymru  
lewyrchus



Cymru gyda diwylliant  
bywiog ac iaith Gymraeg  
ffyniannus



Cynnal  
gweithlu  
amrywiol sy'n  
cynrychioli  
eich  
cymuned, a  
hyfforddwyd  
yn dda  
ac sy'n  
ymroddedig  
i gyflawni ein  
gwasanaeth

### Byddwn yn gwerthfawrogi ein pobl drwy:

- Ddenu gweithlu sy'n adlewyrchu a chynrychioli ein cymunedau
- Datblygu ein pobl trwy adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu
- Cefnogi ein pobl i deimlo'n dda, yn iach ac yn hapus yn y gwaith
- Cyflawni argymhellion yr adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl
- Annog a chefnogi diwylliant dwyieithog ar draws y Gwasanaeth

### Beth roeddem yn bwriadu gwneud yn 2021-2022 a beth wnaethom:

Cynnwys staff gorsafoedd tân wrth adnabod a chefnogi diffoddwyr tân a gwirfoddolwyr posib ar gyfer y dyfodol

- Yn dilyn codi cyfyngiadau'r pandemig, ailgyflwynwyd digwyddiadau recriwtio ar alwad, diwrnodau agored a nosweithiau recriwtio. Defnyddir cod QR mewn digwyddiadau ar gyfer cofrestru diddordeb ar-lein. Cefnogir y gweithgaredd hwn gan dimau Recriwtio a'r Wasg a Chyfathrebiadau
- Mae penaethiaid gorsafoedd yn parhau i ddatblygu cysylltiadau â grwpiau cymunedol gyda gorsafoedd yn cefnogi sesiynau recriwtio a chyfeirio at adnoddau a chanllawiau. Rydym hefyd yn annog ein cadetiaid tân i ystyried gyrfa gyda'r Gwasanaeth
- Sefydlu strategaeth glir i ddenu a chadw staff i Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ddod yn gyflogwr o ddewis, gan gynnwys i'r grwpiau hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd
- Adolygwyd y broses recriwtio weithredol er mwyn adnabod unrhyw rwystrau i'r rhai a all fod dan anfantais (fel bod angen trwydded yrru wrth gael eu recriwtio). Gwnaethom hefyd ddadansoddi ein prosesau dyrchafu mewnol i adnabod unrhyw rwystrau anuniongyrchol a wynebwr gan staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Cynhaliom ddigwyddiadau gweithredu cadarnhaol rhithwir lle bu diffoddwyr tân yn rhannu eu straeon
- Mae gwaith i gynhyrchu strategaeth recriwtio a chadw ar draws y Gwasanaeth wedi dechrau, gan gysylltu â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ac adrannau eraill yn ogystal â gweithgor canolfan recriwtio Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (CCPT)

Sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o'n holl bolisiau a gweithdrefnau AD allweddol


- Rydym wedi cyflwyno proses Asesu Integredig i werthuso effaith yr holl bolisiau, gweithdrefnau a gweithgareddau, gan sicrhau ein bod yn ystyried grwpiau a dangynrychiolir a grwpiau ymylol

### Lansio a chyflwyno'r broses Adolygiad Personol newydd i'r holl staff

- Lansiodd ein tîm Dysgu a Datblygu'r llwyfan Adolygu Personol digidol newydd ym mis Ebrill 2021 sy'n cael ei gorffori ar draws y Gwasanaeth. Adroddwyd effaith gadarnhaol ac mae'r broses wedi annog sgysiau adeiladol ynghylch llesiant a datblygiad gyrfa yn y tymor hwy

### Nodi, datblygu a chadw talent sy'n perfformio'n dda ac arweinwyr ein Gwasanaeth yn y dyfodol

- Mae ein llwybrau datblygu newydd, sy'n adnabod gofynion dysgu a sgiliau ar bob lefel, wedi'u mapio yn erbyn fframwaith CCPT. Mae pedwar maes cyflawni'r fframwaith yn sicrhau bod ymddygiadau arweinyddiaeth wedi'u corffori ar draws y Gwasanaeth. Bwriedir lansio'r rhain yn ystod 2022-2023




### Ymgorffori ein strategaeth llesiant ar draws y Gwasanaeth a darparu pecyn hyfforddi i reolwyr llinell am amrywiaeth ac iechyd galwedigaethol, i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein staff

- Datblygwyd y prosiect, a bydd pecyn hyfforddi yn cael ei gynhyrchu a'i ddatblygu i fynd i'r afael â meysydd allweddol a adnabod themâu

### Adolygu ein cyfleusterau lles, ardaloedd llesiant ac amgylcheddau gwaith i sicrhau ein bod yn darparu gweithle iach a diogel i'n pobl

- Datblygwyd ardaloedd llesiant a chyfleusterau eraill mewn sawl lleoliad mewn cydweithrediad â staff sy'n gweithio yn y lleoliadau hyn. Lle bo'n bosib, rydym wedi defnyddio deunyddiau a ailgylchwyd a roddwyd i leihau'r effaith amgylcheddol. Cynllunnir cyfleusterau ychwanegol mewn lleoliadau eraill
- Mae ein Grŵp Cyflawni Llesiant yn cyfarfod bob chwarter i adolygu llesiant staff, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r Gwasanaeth
- Mabwysiadwyd ymagwedd ragweithiol i gefnogi staff unigol yn dilyn digwyddiadau trawmatig gweithredol ac mae Strategaeth Iechyd Meddwl newydd y Gwasanaeth yn cael ei hymgorffori drwy weithio gyda'r holl staff



# Parhau i Weithio'n Effeithiol

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru lewyrchus



Cymru o ddiwylliant  
bywiog ac iaith  
ffyniannus



Cymru iachach

Sicrhau  
bod ein  
Gwasanaeth  
yn rhoi  
gwerth am  
arian ac yn  
amlyg yn  
atebol

## Byddem yn parhau i weithio'n effeithiol drwy:

- Fod yn eglur ac yn atebol i'r cyhoedd
- Eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth
- Datblygu dulliau newydd o weithio

## Beth roeddem yn bwriadu ei wneud yn 2021-2022 a beth wnaethom:

**Datblygu dull i asesu pa effaith mae ein dewisiadau o ran prynu a chyflenwyr yn ei chael ar bobl dan anfantais a phobl sy'n agored i niwed o fewn ein cymunedau**

- Rydym wedi dechrau gwaith i ymgorffori cymalau gwerth cymdeithasol yn yr holl gytundebau rhagnodedig ac yn adrodd ar eu heffeithiolrwydd yn unol â deddfwriaeth a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae ein gwaith yn parhau i gasglu mwy o wybodaeth am werth cymdeithasol a chynaliadwyedd fel y gallwn reoli ein cadwyni cyflenwi yn fwy effeithiol.
- Bydd cynnwys cymalau gwerth cymdeithasol o fewn caffaeliadau yn annog ein cyflenwyr i ddarparu buddion i'n cymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys darparu cyfleoedd cyflogaeth, prentisiaeth a hyfforddiant, defnyddio cyflenwadau a gwasanaethau lleol a chymorth ar gyfer ystyriaethau amgylcheddol gyda'r nod o greu Cymru fwy cynaliadwy

## Gweithredu canlyniadau a phenderfyniadau'r ymarferiad Gwerthuso Swyddi

- Mae'r ymarfer Gwerthuso Swyddi wedi'i gwblhau ac mae'r canlyniadau o ran unrhyw newidiadau cyflog wedi'u cyfleu. Byddwn yn darparu hyfforddiant gloywi i Werthuswyr Swyddi i gefnogi'r gwaith parhaus o gynnal Cynllun Gwerthuso Swyddi'r Gwasanaeth. Bydd hyn yn sicrhau, wrth symud ymlaen, y bydd pob swydd, gan gynnwys swyddi newydd a swyddi sy'n cael eu diwygio ill dau, yn derbyn y lefel briodol o dâl

## Archwilio dulliau o fesur, monitro ac adrodd ar berfformiad adrannol, gyda chefnogaeth y defnydd o dechnoleg

- Rydym wedi ehangu'r defnydd o'n System Wybodaeth Rheoli Busnes i alluogi a chefnogi mesur, monitro ac adrodd ar amrywiaeth o wybodaeth perfformiad gan gynnwys:
  - Gwybodaeth archwilio misol a blynyddol gorsafoedd
  - Cymhwysedd craidd gweithredol
  - Archwiliadau diogelwch yn y cartref
  - Gwybodaeth Risg Safle Penodol (SSRI)
  - Arwyddion tân diangen
  - Agweddau amrywiol ar iechyd a diogelwch

## Gweithredu rhaglen well i adnewyddu cerbydau hirdymor ar gyfer ein fflyd ac adolygu effeithlonrwydd ein tanciau tanwydd

- Yn 2021 cytunodd ein Huwch Dîm Rheoli i leihau hyd oes peiriannau tân rheng flaen i 12 mlynedd. Rydym wedi newid y rhaglen amnewid cerbydau i adlewyrchu hyn

## Adolygu strwythur, llywodraethiant, lleoliad, patrymau gwaith a rotâu tîm hyblyg Cyd-reoli Tân o fewn y Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus

- Ar ôl cwblhau'r adolygiad, mae'r prosiect wedi cyrraedd y cam ymgynghori a gweithredu. Cwblhawyd ailstrwythuro ac ailddosbarthu rhai o'r ffrydiau gwaith i gynorthwyo gyda'r llwyth gwaith

## Gweithredu penderfyniad y llys ynghylch trefniadau tapro Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân a chyfathrebu'n glir i'r staff a effeithiwyd

- Yn dilyn dyfarniad y llys apêl ar gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân, cytunodd yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2021 i barhau i brosesu achosion. Rydym yn cynnig, yn weithredol, dau ddatganiad buddion pensiwn i'r sawl sy'n ymddeol ac rydym yn gweithio ar bob achos arall i'w paratoi ar gyfer eu prosesu. Rydym hefyd wedi cyhoeddi cyfathrebiadau parhaus gan gynnwys Cwestiynau Cyffredin ac rydym yn gweithio i roi enghreifftiau i aelodau'r cynllun a mynediad at fluniwr pensiwn ar-lein

## Adolygu'r ffordd y mae amserlenni hyblyg yn darparu cwmnasiad tân 24/7

- Amcan creu Amserlennu Hyblyg yw cyflawni'r lefelau criwio gorau posib trwy gynllunio ymlaen llaw a defnyddio staff mewn gorsafoedd yn hyblyg i baru adnoddau i'r galw amdanynt. Cytunwyd ar yr egwyddorion gweithredu ar gyfer Amserlennu Hyblyg effeithiol mewn trafodaethau rhwng Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth a Chyrff Cynrychioliadol. Bydd y system yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan weithgor ar y cyd neu ar gais unrhyw un o'r partïon dan sylw, fel y bo'n briodol, i sicrhau'r bydd yr egwyddorion a amlinellwyd yn parhau i fod yn effeithiol



# Archwiliad cyfrifon Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2021-2022

Bob blwyddyn mae Archwilio Cymru yn archwilio datganiadau ariannol y Gwasanaeth. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn wir a theg ddiamod am ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar y 26ain o Orffennaf 2022.

*“Yn fy marn i, mae’r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a’i incwm a gwariant am y flwyddyn ac maent wedi cael eu paratoi’n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU”.*

Archwilydd Cyffredinol Cymru

| Cyfrifyddiaeth                        | Archwiliwyd<br>2020-2021<br>£Miliwn | Cyhoeddwyd<br>2021-2022<br>£Miliwn | Cyllidwyd<br>2022-2023<br>£Miliwn |
|---------------------------------------|-------------------------------------|------------------------------------|-----------------------------------|
| Costau’n Gysylltiedig â Gweithwyr     | 62.5                                | 62.5                               | 63.5                              |
| Costau’n Gysylltiedig â Safleoedd     | 5.5                                 | 5.3                                | 5.6                               |
| Costau Hyfforddi                      | 1.3                                 | 1.6                                | 1.8                               |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau            | 5.2                                 | 5.5                                | 5.3                               |
| Costau’n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth | 1.3                                 | 1.4                                | 1.5                               |
| Gwasanaethau a Gytundebwyd            | 0.9                                 | 1.0                                | 0.9                               |
| Costau Cyfalaf / Prydlesu             | 4.4                                 | 4.1                                | 4.9                               |
| Incwm                                 | -7.5                                | -7.7                               | -4.2                              |
| Cyfanswm                              | 73.6                                | 73.7                               | 79.3                              |

## Ein cyllideb ar gyfer 2022-2023

|                               |       |
|-------------------------------|-------|
| Grantiau Refeniw              | £6.9m |
| Grant Menter Ariannol Breifat | £1.0m |

|                      |            |
|----------------------|------------|
| Rhaglen Gyfalaf      | £2.4m      |
| Eiddo                | £1,300,000 |
| Cerbydau             | £84,000    |
| Offer TGCh           | £420,000   |
| Offer Gweithrediadau | £610,000   |

# Archwiliadau Mewnol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2021-2022

Yn ystod 2021-22 cynhaliwyd deg archwiliad gan TIAA, ein harchwilydd mewnol dan gytundeb. Asesodd pob archwiliad faes gweithgaredd yn erbyn pedair lefel o sicrwydd – sylweddol, rhesymol, cyfyngedig neu ddim o gwbl, gyda chamau gweithredu a argymhellir (os o gwbl) yn cael eu trosglwyddo i’n System Wybodaeth Rheoli Busnes (BMIS) ar gyfer monitro cynnydd chwarterol.

| Enw’r Archwiliad                                  | Lefel Sicrwydd | Nifer y Camau |
|---------------------------------------------------|----------------|---------------|
| Adolygiad Sicrwydd o Reolyddion Lliniarol         | Sylweddol      | 1             |
| Adolygiad Sicrwydd o Ymweliadau â Gorsafoedd      | Sylweddol      | 1             |
| Adolygiad Sicrwydd o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth   | Sylweddol      | 3             |
| Adolygiad Sicrwydd o Gynllunio Strategol          | Sylweddol      | 0             |
| Adolygiad Sicrwydd o Gardiau Talu                 | Sylweddol      | 4             |
| Adolygiad Sicrwydd o Reoli Perfformiad            | Sylweddol      | 1             |
| Adolygiad Sicrwydd o Ddiogelu                     | Rhesymol       | 8             |
| Adolygiad Sicrwydd o Reoliadau Ariannol Allweddol | Rhesymol       | 0             |
| Adolygiad Sicrwydd o CoreHR                       | Rhesymol       | 4             |
| Adolygiad Sicrwydd o Gynllun Marw yn y Swydd      | Rhesymol       | 1             |

Yn ogystal, cynhaliwyd archwiliad adolygiad dilynol ar gamau gweithredu a ddeilliodd o ddeuddeg archwiliad a gynhaliwyd rhwng Medi 2019 a Gorffennaf 2021.



# Beth Rydym yn Bwriadu ei Wneud yn 2023-2024

Ein gweledigaeth o hyd yw gwneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg. Mae'r nod hwn, a sefydlwyd yn ein Cynllun Strategol 2020-2030, yn sylfaenol i'n gweithgareddau ac yn goleuo ein cynllunio a strwythurwyd ar sail wyth Thema Strategol (fel y nodir ar dudalen 46-47).

Yn ogystal â darparu ymateb effeithiol i'n cymunedau pan fydd ein hangen arnynt, mae'r model hwn yn sicrhau bod ein cynlluniau'n cyd-fynd ag egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. (Cymru) 2015.

“Dylai pob gwasanaeth cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion cyfredol yn cael eu diwallu, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.”

Datblygwyd y themâu a'r amcanion cysylltiedig mewn ymgynghoriad â'n staff, ein cymunedau, ein partneriaid a rhanddeiliaid eraill. Ar y tudalennau canlynol, rydym yn amlinellu'r gwaith a wnaethom wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer 2023-2024 yn ogystal â'n blaenoriaethau ar gyfer datblygu a gwella ymhellach. Mae'r cynlluniau hyn yn agored i ymgynghoriad am 12 wythnos o gyhoeddi'r Cynllun Gwella hwn. Mae manylion am sut i 'Ddweud Eich Dweud' ar ddiwedd y ddogfen hon. A fyddochystal â rhoi ychydig o funudau i ddweud eich barn wrthym.

Rydym wedi ymrwymo gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynaliadwyedd ym mhopeth y gwnawn – i werthfawrogi a datblygu ein pobl i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gymunedau De Cymru. Gallwch ddarganfod mwy am sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn yn ein Cynllun Strategol a chynlluniau allweddol eraill, sydd ar gael ar ein gwefan neu drwy ddolenni isod.





# Sut Wnaethom Ddatblygu ein Cynllun ar gyfer 2023-2024

## Ymgynghoriad Cychwynnol

Mewn ymarfer ymgynghori cynnar yn ystod Mehefin 2022, gofynnwyd i'n staff, rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol raddio pwysigrwydd wyth Thema Strategol y Gwasanaeth ac ymateb i'r tri chwestiwn canlynol:


- Beth ddylem ni fod yn ei wneud y flwyddyn nesaf i wella ein Gwasanaeth yn 2023-2024?
- Pe gallech wneud un newid i'n Gwasanaeth, beth fyddai hwnnw?
- A oes gwasanaethau y dylem ganolbwyntio llai arnynt?

Hyrwyddwyd yr arolwg, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, drwy law e-bost i'n cofrestr rhanddeiliaid ac i'r holl staff drwy e-bost, cylchlythyrau mewnol, yr ap staff ac ar fewnrwyd y Gwasanaeth.

Cawsom 130 o ymatebion, cynnydd o 67% o'r 78 o ymatebion yn 2021. Daeth y mwyafrif gan weithwyr a gwirfoddolwyr (111 o ymatebion), gyda mwy na hanner gan staff corfforaethol (68 o ymatebion).

Yn gyffredinol, ar raddfa o 1-5 (o ddim yn bwysig i bwysig iawn), graddiwyd yr holl Themâu Strategol yn bwysig/pwysig iawn. Roedd y sgôr cyfartalog ar gyfer dwy thema ychydig yn is na'r un ymarfer yn 2021 ('Defnyddio Technoleg yn Dda' a 'Parhau i Weithio'n Effeithiol'), tra bod pedair wedi'u graddio'n uwch ('Eich Cadw'n Ddiogel', 'Ymateb i'ch Argyfwng', 'Ymgysylltu a Chyfathrebu' a 'Gwerthfawrogi ein Pobl' – y ddau gyntaf oedd bwysicaf yn gyffredinol).

## Graddfa Pwysigrwydd Thema Strategol



Rhannwyd adroddiad gwerthuso ar yr ymgynghoriad hwn gyda'n Uwch Dîm Rheoli a'r Awdurdod Tân ac Achub ill dau. Dadansoddwyd adborth i'r cwestiynau a ofynnwyd a nodwyd themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro i'w hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Gwella hwn. Manylir ar y themâu hyn ar y tudalennau canlynol gydag ymatebion byr. Sylwer, er fe wnaethom ofyn am adborth ar feysydd i'w gwella, cawsom hefyd sylwadau cadarnhaol, er enghraifft, yn cadarnhau "Mae'r holl waith a wneir yn ddefnyddiol" ac "Rydym yn blaenoriaethu ac yn canolbwyntio ar y themâu cywir".

## Cwynion a Chanmoliaeth

Fe wnaethom ystyried gwynion i adnabod unrhyw faterion a oedd yn codi dro ar ôl tro. Derbyniwyd cyfanswm o 39 o gwynion yn 2021-2022, ac aethwyd i'r afael â phob un ohonynt yn foddhaol. Ni chodwyd unrhyw faterion arwyddocaol a oedd yn gofyn am newid gweithdrefnau ond, darparwyd cyngor a/neu hyfforddiant i'r unigolion dan sylw lle roedd yn briodol. Ni nodwyd unrhyw themâu cyson.

Rydym hefyd yn derbyn negeseuon cadarnhaol a llythyrau o werthfawrogiad yn gyson sy'n cael eu rhannu â'r Gwasanaeth cyfan.

"Roedd yr holl ddiffoddwyr tân yn ardderchog ac yn ofalgar iawn yn gofalu am fy ngwraig a minnau tra roeddem yn gaeth yn ein car. Roedd yna ddiffoddwr tân bob amser yn dal llaw fy ngwraig gan ei bod yn ofnus iawn. Roeddent yn dda iawn tra'n torri'r drysau i ffwrdd a datglymu'r car. Rydyn ni wedi cael gwybod ein bod ni'n ffodus i fod yn fyw o hyd ac rydym yn diolch iddynt i gyd o waelod ein calonau."

"Hoffwn ddiolch i'r ddau ddyn ifanc hyfryd a ddaeth heibio i'm cartref y bore yma i asesu fy anghenion diogelwch tân. Roedd y ddau ohonyn nhw'n hyfryd a gwnaethant fy nghartref yn ddiogel yn ogystal â rhoi gwybod i mi beth i'w wneud yn y dyfodol, os bydd angen eu cymorth arnaf."

## Datblygu'r cynllun

Yn ogystal ag ystyried gwybodaeth o'r arolwg cychwynnol, adolygodd yr Uwch Dîm Rheoli a'r Awdurdod Tân ac Achub ein Themâu a'n Hamcanion Strategol yn erbyn canlyniadau perfformiad. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr eraill i fyfrio ar adborth ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer 2023-2024, gan symud ymlaen o gynlluniau sy'n cael eu rhoi ar waith yn y flwyddyn gyfredol.

Gwahoddwyd cydweithwyr mewn rolau gweithredol a lleihau risg i roi sylwadau ar y ddogfen ddrafft cyn yr adolygiad terfynol a'i chymeradwyo gan yr Uwch Dîm Rheoli.

Sylwadau Ymgynghoriad – Themâu ac Ymatebion

| Thema Ymgynghori                                                                                               | Ein Hymateb                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Gwella morâl staff, gwrando ar staff, gwerthfawrogi staff mwy, a gwella llesiant a meddwlgarwch gweithwyr      | <p>Rydym yn cydnabod mai ein staff yw ein hased mwyaf wrth sicrhau ein bod yn parhau i gadw ein cymunedau’n ddiogel. Mae gennym nifer o nodweddion ar waith gan gynnwys fforwm Shout i alluogi cyfnewid syniadau, grŵp llesiant sy’n ymroddedig i les yr holl staff a chefnogaeth unigol ragweithiol i’r sawl sy’n mynychu digwyddiadau trawmatig.</p> <p>Fodd bynnag, rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella, megis datblygu’r ap staff a diweddarau fforwm Shout i gynnwys manylion arolygon parhaus i alluogi staff i ddweud eu dweud ymhellach ar faterion sy’n cael eu harchwilio gan y Gwasanaeth.</p>              |
| Gwella a chynyddu ymgysylltu â chymunedau                                                                      | <p>Fe wnaethom wynebu heriau sylweddol yn ddiweddar wrth ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltiadau â’n cymunedau, gyda chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer gweithgareddau wyneb yn wyneb. Darparwyd mwy o wasanaethau yn ddigidol, ac rydym yn parhau i ddatblygu ein gwefan a thudalennau Facebook Gorsafoedd. Gan gydnabod nad yw mynediad digidol yn opsiwn i bawb, rydym yn ystyried ymgysylltu drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol wrth ddatblygu ymgyrchoedd. Wrth symud ymlaen, rydym yn bwriadu archwilio ffyrdd a chyfleoedd newydd i roi llais i’n holl gymunedau ac rydym yn cynnig hyn fel blaenoriaeth yn y cynllun hwn.</p> |
| Gwella tâl staff                                                                                               | <p>Mae tâl staff yn amodol ar negodi a chytundeb cenedlaethol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ystyried cymorth arall sydd ar gael i staff a byddwn yn adolygu buddion staff.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| Sicrhau ffocws parhaus ar addysg atal                                                                          | <p>Mae addysg atal yn elfen allweddol o’n gweithgaredd Lleihau Risg, ac rydym yn parhau i ddatblygu’r ddarpariaeth hon, gan gynnwys gwaith strategol gyda phartneriaid..</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| Ffocws uwch ar weithio’n gynaliadwy ac mewn gallu sy’n gyfeillgar i’r amgylchedd i leihau effaith amgylcheddol | <p>Mae ein Cynllun Lleihau Carbon yn nodi ein huchelgeisiau a’r heriau sy’n ein hwynebu ill dau. Rydym wedi nodi nifer o weithgareddau ac rydym wedi cynyddu monitro ein hallyriadau carbon er mwyn asesu effaith amgylcheddol ein gweithgareddau.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| Canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth a swyddogaethau craidd y Gwasanaeth Tân                                    | <p>Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod ein dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni, gan gynnwys agweddau ar leihau risg a gweithio mewn partneriaeth. Byddwn hefyd yn parhau i fod yn wyliadwrus o newidiadau a all effeithio ar y gwasanaethau a ddarparwn, yn enwedig gan eu bod yn ymwneud â’r sawl sy’n fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas.</p>                                                                                                                                                                                                                                                           |

| Thema Ymgynghori                                                                        | Ein Hymateb                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
|-----------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cyflwyno polisi gweithio hyblyg / gweithio o gartref cyson ar gyfer staff corfforaethol | <p>Rydym yn cydnabod gwerth hyblygrwydd ac mae rheolwyr llinell yn penderfynu ar y trefniadau gweithio mwyaf priodol ar gyfer eu timau. Bydd hyn yn amrywio gan fod rhai rolau yn y swyddfa, gan gyfyngu ar gyfleoedd i weithio’n hyblyg.</p>                                                                                                                                                             |
| Gwella effeithlonrwydd arferion gwaith ac addasu i newid                                | <p>Cydnabyddir yr angen i wella’n barhaus a gwelir gwella effeithlonrwydd fel rhywbeth parhaus yn hytrach nag ymarfer un tro.. Symudodd adolygiad o Gyd-reoli Tân i’r cam gweithredu ac rydym yn datblygu pecyn cymorth gwerthuso i adolygu prosiectau a dysgu sut allwn wella gweithgareddau tebyg i’r dyfodol.</p>                                                                                      |
| Gwella recriwtio a dyrchafiadau i bawb, a gwneud y swydd ar alwad yn fwy deniadol       | <p>Mae adolygiad o brosesau recriwtio a dyrchafu ar y gweill. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ein personél ar alwad ac yn parhau i archwilio ffyrdd o wneud y rôl hon yn fwy deniadol o ran recriwtio a chadw.</p>                                                                                                                                                                                          |
| Parhau i gydweithio â’n partneriaid                                                     | <p>Rydym yn aelodau statudol o’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws ein deg ardal Awdurdod Unedol, sy’n ein helpu i feithrin cydberthnasau a nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Rydym yn ceisio datblygu ein partneriaethau cyfredol a nodi partneriaid newydd ill dau.</p>                                                                                                                         |
| Cyfleoedd dysgu ac addysgu gan gynnwys staff corfforaethol                              | <p>Y bwriad yw bydd gan bob aelod staff fynediad at lwybr dysgu addas i’r dyfodol ac, fel y soniwyd o’r blaen, rydym yn bwriadu symleiddio’r broses ddyrchafu i staff. Mae rhaglen barhaus o Ddosbarthiadau Meistr sy’n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau datblygu ar gael a gellir nodi anghenion datblygu unigol drwy’r broses Adolygiad Personol, a ariennir o bosibl drwy’r Gronfa Dysgu Ychwanegol.</p> |
| Gwella ansawdd rheoli a newid strwythur rheoli o fewn y Gwasanaeth                      | <p>Bydd yr adolygiad o brosesau dyrchafu’n cynnwys llwybrau rheoli.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| Gwella cyfathrebu ar bob lefel                                                          | <p>Er bod gennym amrywiaeth o sianelau cyfathrebu mewn lle, rydym yn deall fod hwn yn faes sydd angen sylw cyson i sicrhau bydd y staff cyfan yn teimlo’n rhan o’r Gwasanaeth.</p>                                                                                                                                                                                                                        |
| Ehangu rôl Diffoddwr Tân i ymateb i argyfyngau o bob math gan gynnwys rhai meddygol     | <p>Rydym yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar adolygiad thematig 2021 ar <a href="#">Ehangu rôl Diffoddwyr Tân yng Nghymru</a>.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| Canolbwyntio mwy ar gyfrifoldebau craidd a llai ar gydweithio/gweithio â phartneriaid   | <p>Fel y soniwyd eisoes, ein cyfrifoldebau craidd yw ein blaenoriaethau gan gynnwys cydweithio â phartneriaid megis yr Awdurdodau Unedol, yr Heddlu a’r Gwasanaeth Iechyd. Ni allem weithio ar ein pennau ein hunain ac rydym yn ceisio’r canlyniadau gorau er mwyn iechyd a lles y cyhoedd.</p>                                                                                                          |



# Ein Themâu Strategol

Mae'r tabl yn dangos sut mae ein Themâu Strategol yn alinio â'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cefnogi ein Hamcanion Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.

| Thema Strategol                                                                                                                         | Yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Yn cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <div></div> <div>Eich Cadw'n Ddiogel</div>             | <div><div>Cymru gydnerth</div></div> <div><div>Cymru o gymunedau cydlynus</div></div> <div><div>Cymru iachach</div></div> <div><div>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</div></div>                                    | <div><div>Cymunedau Diogelach</div></div> <div><div>Cychwyn Gorau</div></div> <div><div>Lleihau Anghydraddoldebau Cymdeithasol ac Economaidd</div></div>                    |
| <div></div> <div>Ymateb i'ch Argyfwng</div>            | <div><div>Cymru gydnerth</div></div> <div><div>Cymru iachach</div></div>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | <div><div>Cymunedau Diogelach</div></div> <div><div>Gweithio Gyda'n Gilydd</div></div>                                                                                                                                                                         |
| <div></div> <div>Gweithio gyda'n Partneriaid</div>    | <div><div>Cymru gydnerth</div></div> <div><div>Cymru o gymunedau cydlynus</div></div> <div><div>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</div></div> <div><div>Cymru lewyrchus</div></div>                                  | <div><div>Gweithio Gyda'n Gilydd</div></div>                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| <div></div> <div>Ymgysylltu a Chyfathrebu</div>      | <div><div>Cymru gydnerth</div></div> <div><div>Cymru o gymunedau cydlynus</div></div> <div><div>Cymru sy'n fwy cyfartal</div></div> <div><div>Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus</div></div> | <div><div>Gweithio Gyda'n Gilydd</div></div>                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <div></div> <div>Diogelu Ein Hamgylchfyddedd</div>   | <div><div>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</div></div> <div><div>Cymru iachach</div></div> <div><div>Cymru gydnerth</div></div> <div><div>Cymru o gymunedau cydlynus</div></div>                            | <div><div>Gweithio Gyda'n Gilydd</div></div> <div><div>Dod yn Rhan</div></div>                                                                                                                                                                             |
| <div></div> <div>Defnyddio Technoleg yn Dda</div>    | <div><div>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</div></div> <div><div>Cymru o gymunedau cydlynus</div></div> <div><div>Cymru iachach</div></div>                                                                                                                                                      | <div><div>Gweithio Gyda'n Gilydd</div></div> <div><div>Diogelu'r Amgylchedd</div></div>                                                                                                                                                                    |
| <div></div> <div>Gwerthfawrogi Ein Pobl</div>        | <div><div>Cymru sy'n fwy cyfartal</div></div> <div><div>Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus</div></div> <div><div>Cymru lewyrchus</div></div> <div><div>Cymru iachach</div></div>             | <div><div>Cyflogadwyedd, Sgiliau a Chyfleoedd</div></div> <div><div>Ffordd o fyw iach</div></div>                                                                                                                                                          |
| <div></div> <div>Parhau i Weithio'n Effeithion</div> | <div><div>Cymru lewyrchus</div></div> <div><div>Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus</div></div> <div><div>Cymru iachach</div></div>                                                                                                                                                | <div><div>Lleihau Anghydraddoldebau Cymdeithasol ac Economaidd</div></div> <div><div>Gweithio Gyda'n Gilydd</div></div> <div><div>Dinasoedd sy'n Gweithio</div></div> |

# Beth Rydym yn Bwriadu ei Wneud yn 2023-2024



## Mae hyn yn golygu...

Byddwn yn atal argyfyngau ac yn amddiffyn rhagddynt i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Awgryma tystiolaeth bod ein gweithgareddau ataliol wedi bod yn ddylanwadol dros ben o ran lleihau nifer yr achosion brys yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sy'n duedd rydym yn awyddus i'w chynnal a'i gwella. Un o brif ysgogiadau ein rhaglen ymgyrchoedd ataliol yw'r wybodaeth a gawn gan sefydliadau eraill, yn ogystal â'r wybodaeth a rannwn gyda nhw, sy'n ein galluogi i ddatblygu ymgyrchoedd penodol yn seiliedig ar dystiolaeth ystadegol.

## Ein Hamcanion:

- Lleihau effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau
- Lleihau nifer y tanau yn y cartref yn ogystal â deall eu hachosion a'u hymddygiad
- Lleihau nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTFf)
- Lleihau nifer y tanau bwriadol
- Gwella diogelwch yn y dŵr ac o'i amgylch
- Gwella diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau

## Bydd ein blaenoriaethau yn 2023-2024 yn cynnwys:

- Edrych ar sut y gallwn ddefnyddio dulliau nad ydynt yn ddigidol i rannu negeseuon diogelwch gyda'n cymunedau
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr ymhlith ein cymunedau
- Adeiladu ar eu hymagwedd weithio gyda phartneriaid i leihau tanau bwriadol
- Gweithio i leihau tanau gwyllt drwy reoli tir, gan gynnwys cydlynu ein gwaith gyda thirfeddianwyr a phartneriaid
- Defnyddio pob cyfle i wella diogelwch, gan gynnwys rhoi cyngor pan fyddwn yn ymateb i alwadau diangen
- Gweithio i ddeall y sawl sydd fwyaf mewn perygl o fewn ein cymunedau



## Mae hyn yn golygu...

Byddwn bob amser yn sicrhau ein bod yn darparu ymateb effeithlon ac effeithiol i'n cymunedau pan fydd angen. Mae hyn yn golygu bod rhaid cael personél hyfforddedig iawn a'r offer diweddaraf posib i sicrhau na fydd diogelwch ein cymunedau byth yn cael ei beryglu. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein diffoddwyr tân a'n Staff Cyd-reoli i sicrhau eu bod yn gallu ymateb i'r ystod eang o ddigwyddiadau rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

## Ein Hamcanion:

- Ymateb yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch chi
- Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein criwiau ar alwad ar gael
- Hyfforddi ein diffoddwyr tân, staff rheoli tân brys a staff eraill i ymateb i risgiau yn ein cymunedau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

## Bydd ein blaenoriaethau yn 2023-2024 yn cynnwys:

- Ymgorffori adolygiad diweddar o'r Ystafell Cyd-reoli Tân
- Sicrhau bod ein rhaglenni hyfforddi yn paratoi ein pobl ar gyfer gofynion y dyfodol
- Adolygu'r farchnad yn barhaus ar gyfer cit ac offer i sicrhau bod ein diffoddwyr tân yn barod
- Hyrwyddo cyfleoedd ar alwad o fewn cymunedau





Gweithio gyda’n Partneriaid

Mae hyn yn golygu...

Mae gennym hanes hir sefydledig a balch o weithio gyda’n partneriaid i gyflawni gwelliannau mesuradwy, arbedion effeithlonrwydd a bodloni gofynion y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfrannu at flaenoriaethau lleol a chynorthwyo i wella lles cymunedol. Rydym yn cydnabod manteision gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau gwerth gorau ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ar y cyd a bod rhannu gwybodaeth a sgiliau wrth galon dyfodol ein Gwasanaeth.

Ein Hamcanion:

- Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i gefnogi ein cymunedau
- Gweithio gyda’n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle mae eu hangen
- Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau presennol

Bydd ein blaenoriaethau yn 2023-2024 yn cynnwys:

- Datblygu cyfleoedd rhannu data i wella cynllunio a chanlyniadau’r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu
- Archwilio cyfleoedd i rannu adeiladau gyda gwasanaethau brys eraill
- Cryfhau ein perthynas â phartneriaid cyfredol i ddod o hyd i gyfleoedd newydd i gydweithio
- Parhau â’n gwaith ar leihau risg gyda gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru
- Datblygu ein gwaith gyda’n BGC i sicrhau ein bod yn cefnogi’r rhai sydd â’r angen mwyaf



Ymgysylltu a Chyfathrebu

Mae hyn yn golygu...

Byddwn yn gwella’r ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â’n staff, rhanddeiliaid, cymunedau a phartneriaid trwy fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol at gyfathrebu. Mae cyfathrebu yn flaenoriaeth allweddol er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o’r gwaith rydym yn ei wneud, yr heriau sy’n ein hwynebu ac y gallant gyfrannu at lunio ein gwasanaethau i’r dyfodol. Credwn y gallwn gyflwyno ein negeseuon allweddol yn effeithiol drwy sicrhau ffocws parhaus ar addysg, ymgysylltu a chyfathrebu. Gall gweithio fel rhan o gymuned â chysylltiadau da sicrhau gwelliant ehangach na gweithio ar eich pen eich hun, gan felly sicrhau mwy o gyfle i gadw trigolion, busnesau ac ymwelwyr â De Cymru’n ddiogelach.

Ein Hamcanion:

- Cynnwys ein cymunedau a sicrhau eu bod yn cael dweud eu dweud yn yr hyn a wnawn
- Helpu cadw ein cymunedau’n ddiogel wrth ddarparu addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau cymunedol

Bydd ein blaenoriaethau yn 2023-2024 yn cynnwys:

- Sicrhau bod ein gweithgarwch ymgysylltu yn cyrraedd ein holl gymunedau, gan archwilio ffyrdd a chyfleoedd newydd i roi llais iddynt
- Datblygu pecyn cymorth i gefnogi ein haddysg diogelwch ac ymgysylltu â’r gymuned
- Cydlynu a hyrwyddo ein cyfranogiad mewn digwyddiadau cymunedol
- Codi ymwybyddiaeth o’n gweithgareddau a’n cynlluniau o fewn y Gwasanaeth yn ogystal â gyda’n cymunedau a’n partneriaid



## Diogelu'n Hamgylchedd

### Mae hyn yn golygu...

Gwyddom fod ein gweithgareddau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau unrhyw effeithiau negyddol. Rydym wedi datblygu Cynllun Lleihau Carbon a Chynllun Bioamrywiaeth sydd, gyda'i gilydd, yn cynnig ystod o gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar leihau ein heffaith amgylcheddol a diogelu ac adfer systemau biolegol. Rydym yn ymrwymo i gofleidio ynni adnewyddadwy i gefnogi cynaliadwyedd a nodau amgylcheddol DLIDC.

### Ein Hamcanion:

- Lleihau'r defnydd o ddeunyddiau untro
- Ehangu'r defnydd o gerbydau trydan (CT)
- Lleihau ein hynni a'n hól troed carbon
- Ystyried sut mae ein gweithgareddau yn effeithio ar yr amgylchedd
- Lleihau'r maint o wastraff a gynhyrchir

### Bydd ein blaenoriaethau yn 2023-2024 yn cynnwys:

- Datblygu deialog agored gyda staff ar ein sefyllfa o ran ein hymagwedd at allyriadau carbon a'r heriau sy'n ein hwynebu
- Ehangu ein rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan i gefnogi mwy o ddefnydd o gerbydau trydan
- Archwilio ffyrdd newydd o weithio'n gynaliadwy



## Defnyddio Technoleg yn Dda

### Mae hyn yn golygu...

Defnyddio technoleg yn dda i wella ein prosesau a'n systemau i'w gwneud yn ddiogel at y dyfodol, gan ein bod yn cydnabod bod hyn yn chwarae rhan hanfodol ynghylch pa mor dda rydym yn darparu ein gwasanaethau. O'n hoffer diffodd tân gweithredol i'n systemau swyddfa gefn cefnogol, rydym yn bwriadu gwneud y mwyaf o ddatblygiadau technolegol a gwella'r gwasanaethau a ddarperir. Bydd datblygiad technolegol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i les ehangach ein staff a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, gan sicrhau bod adnoddau gweithredol yn y sefyllfa orau i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau.

### Ein Hamcanion:

- Defnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf addas i wella ein gwasanaethau
- Adolygu safon a defnydd technoleg ac offer ar draws y Gwasanaeth

### Bydd ein blaenoriaethau yn 2023-2024 yn cynnwys:

- Cyflwyno mwy o hyfforddiant trwy ein systemau TGCh a uwchraddiwyd ar orsafoedd megis cyswllt fideo o leoliadau eraill i orsafoedd
- Cynyddu'r defnydd o dechnoleg symudol, fel tabledi i wella effeithlonrwydd
- Parhau i ddatblygu system AD y Gwasanaeth i wella adrodd a phrofiad y defnyddiwr, gan wella ein gweithdrefnau hunanwasanaeth
- Caffael a gweithredu System Rheoli Cleifion ar gyfer Uned Iechyd Galwedigaethol y Gwasanaeth
- Parhau i wella ac ehangu'r Rhaglen Archwilio Seiliedig ar Risg electronig a gyflwynwyd yn ddiweddar
- Archwilio technoleg i wella'r gyfres o weithgareddau lleihau risg a ddarparwn
- Cynyddu'r ddarpariaeth o becynnau hyfforddi ar-lein i gefnogi cymhwysedd gweithredol. Cyflawnir hyn drwy law sesiynau rhithwir a fideos cefnogol
- Gwella'r ddarpariaeth Wi-Fi ar draws y Gwasanaeth a sicrhau cysylltedd ar gyfer fideo-gynadledda, cyfrifiaduron, ffonau, a mobileiddio
- Defnyddio diweddariadau TGCh diweddar i alluogi mwy o ymgysylltu â staff trwy gyswllt fideo ar draws y Gwasanaeth





## Gwerthfawrogi ein Pobl

### Mae hyn yn golygu...

Dylai ein gweithlu gynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, bod yn amrywiol, cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal a chael mynediad at gyfleoedd datblygu yn ogystal â phroffesiynol. Bydd ein Cynllun Pobl, Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles yn cefnogi ein gwaith ar recriwtio, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, cynhwysiant ac iechyd, ac yn helpu datblygu'r diwylliant a'r ymddygiadau sydd eu hangen o fewn ein Gwasanaeth. Bydd hyn yn sicrhau gwelliannau i staff cyfredol/y dyfodol a defnyddwyr ein gwasanaethau. Bydd cyfranogiad cynyddol gan staff i'n fforwm Shout ar-lein yn ein helpu i ddeall materion staff yn well a galluogi mwy o staff i gyfrannu'n hawdd at yr hyn a wnawn ill dau.

### Ein Hamcanion:

- Denu gweithlu sy'n adlewyrchu ac yn cynrychioli ein cymunedau
- Datblygu ein pobl trwy adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu
- Cefnogi ein pobl i deimlo'n dda, yn iach ac yn hapus yn y gwaith
- Cyflawni argymhellion yr adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl
- Annog a chefnogi diwylliant dwyieithog ar draws y Gwasanaeth

### Bydd ein blaenoriaethau yn 2023-2024 yn cynnwys:

- Ymgorffori'r broses adolygu personol i gefnogi deialog agored ynghylch llesiant a dyheadau gyrfa, a chydabod cyfraniad pob rôl at wneud cymunedau'n ddiogelach
- Ehangu argaeledd meysydd lles ar gyfer ein staff ym mhob lleoliad
- Adolygu ystod o fuddion gweithwyr y Gwasanaeth
- Datblygu ein dealltwriaeth o daith gyrfa ein pobl, o recriwtio hyd ymddeol
- Sicrhau bydd gan bob aelod staff fynediad at lwybr dysgu
- Symleiddio ein prosesau hyrwyddo
- Hyrwyddo ein fforwm Shout, gan ei wneud yn fwy symudol a hwyluso ei argaeledd mewn gwahanol Orsafoedd Tân ac Achub
- Cynyddu amrywiaeth ymgeiswyr i'r Gwasanaeth
- Adolygu ein trefniadau gweithio gydag asiantaethau allanol i sicrhau cefnogaeth addas i'n strategaeth Iechyd Meddwl
- Gwellu cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol o fewn y Gwasanaeth i sicrhau bod lleisiau staff yn cael eu clywed gan fod yn agored ac yn dryloyw gydag adborth clir



## Parhau i Weithio'n Effeithiol

### Mae hyn yn golygu...

Rydym bob amser yn anelu at ddangos gwerth am arian a darparu ein gwasanaethau am y gost isaf bosib a'r safon uchaf posib. Wrth ystyried faint i'w wario, mae'r angen i wella'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau wrth leihau risg yng nghymunedau De Cymru'n parhau i fod yn flaenoriaeth gennym. Byddwn yn gweithio ar gynllunio tymor canolig a thymor hir, gan ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a darparu ein gwasanaethau yn erbyn her ariannol barhaus a phroffiliau risg newidiol ein cymunedau. Byddwn yn cefnogi Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu rolau arwain a chraffu yn effeithiol.

### Ein Hamcanion:

- Bod yn glir ac yn atebol yn gyhoeddus
- Sicrhau'r gwerth gorau am arian wrth wella ein gwasanaeth
- Datblygu ffyrdd newydd o weithio

### Bydd ein blaenoriaethau yn 2023-2024 yn cynnwys:

- Datblygu fframwaith gwerthuso i sicrhau bod ein prosiectau'n cyflawni
- Adolygu'r holl gyrsiau hyfforddi i sicrhau cyn lleied â phosibl o effaith ar ddarpariaeth rheng flaen
- Gwellu ein prosesau llywodraethu gwybodaeth a rheoli data i gefnogi rhannu data a gwell ffyrdd o weithio
- Archwilio ffyrdd newydd o dderbyn adborth am ein gweithgareddau

# Yr Iaith Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i wasanaethu'r rhai sy'n dewis cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithiol. Yn unol â Safonau'r Gymraeg 2015, mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi derbyn Hysbysiad Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r Awdurdod. Cyhoeddir yr Hysbysiad Cydymffurfio hwn ar ein gwefan ac mae'n rhoi manylion am ba wasanaethau y gall dinasyddion ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Rydym yn ceisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wella safon gyffredinol ein darpariaeth gwasanaeth.

.....

## Fersiynau Eraill

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall, megis hawdd ei ddarllen, print bras, Braille, neu sain, mae croeso i chi gysylltu â ni.

.....

### Dweud Eich Dweud

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein gwasanaethau a chyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Wrth wneud hyn, rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau ac adrodd arnynt.

Byddem yn croesawu'n arbennig eich sylwadau a'ch cwestiynau/neu gwestiynau mewn perthynas â'n hamcanion arfaethedig drwy law ein harolwg ymgynghori, [Dweud Eich Dweud 2022](#)

.....

### Ysgrifennwch atom



**Adran Perfformiad Gwasanaeth a Chynllunio**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru  
Parc Busnes Forest View,  
Llantrisant, CF72 8LX

### E-bostiwch ni



[DED@decymru-tan.gov.uk](mailto:DED@decymru-tan.gov.uk)

.....

### Galwch ni



**01443 232000**

.....

### Mwy o wybodaeth



[www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk)

.....



@TanDeCymru



@TanDeCymru



@sw\_fire\_and\_rescue



Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru



South Wales  
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru  
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

01443 232000  
[www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk)